CYFLAWNI TEGWCH A RHAGORIAETH MEWN ADDYSG A GWELL LLES I BAWB

EQUITY AND EXCELLENCE IN EDUCATION AND ENHANCED WELLBEING FOR ALL

# YMGYNGHORIAD AR Y CYNIGION I EHANGU DARPARIAETH DOSBARTHIADAU CYNNAL DYSGU PRIF FFRWD AR GYFER ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL YN RHONDDA CYNON TAF

**Medi 2024**

## Tabl Cynnwys


| **Tabl Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|
| **Adran 1** | |
| Rhagarweiniad | 3 |
| Â phwy fyddwn ni'n ymgynghori? | 4 |
| Beth fydd y broses ymgynghori yn ei gynnwys? | 5 |
| Yr hyn y bydd angen i chi'i ystyried nawr | 5 |
| Sut mae lleisio'ch barn? | 5 |
| Barn plant a phobl ifainc | 7 |
| Asesiadau o'r Effaith ar y Gymuned, ar Gydraddoldeb ac ar y Gymraeg | 7 |
| **Adran 2** | |
| Cefndir | 8 |
| Trosolwg o'r cynnig | 9 |
| Beth yw sail y cynnig yma? | 9 |
| Gwaith arfaethedig i greu Darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu newydd<br>• Gwybodaeth gefndirol am y cynnig i agor Dosbarthiadau Cynnal Dysgu newydd<br>• Gwybodaeth am yr ysgolion sydd wedi'u heffeithio gan y cynnig | 10 |
| Adleoli Dosbarthiadau Cynnal Dysgu Arfaethedig<br>• Gwybodaeth gefndirol am y cynnig i adleoli Dosbarth Cynnal Dysgu<br>• Gwybodaeth am yr ysgol sydd wedi'i heffeithio gan y cynnig | 15 |
| Pa opsiynau eraill sydd wedi cael eu hystyried? | 17 |
| Beth yw'r buddion ac anfanteision, risgiau a ffactorau lliniaru? | 19 |
| Y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg | 24 |
| **Adran 3** | |
| Beth yw'r achos addysgol dros y cynnig i greu darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu ychwanegol? | 26 |
| Yr effaith ar ddarpariaeth ADY a sut y bydd y cynigion yn cyfrannu at wella ansawdd addysg a chymorth i blant ag ADY:<br>• Beth fydd effaith debygol y cynnig ar ddisgyblion yr ysgol?<br>• Beth fydd effaith debygol y cynnig ar staff y Dosbarth Cynnal Dysgu?<br>• Beth fydd effaith debygol y cynnig ar y gymuned leol?<br>• Beth yw'r effaith debygol ar ansawdd a safon yr addysg? | 26 |
| Beth yw goblygiadau ariannol y cynigion? | 29 |
| Gwybodaeth o ran cludiant o'r cartref i'r ysgol | 30 |
| **Ffurflen Ymateb Ymgynghoriad** | |
| **Atodiad 1**:Ffurflen Ymateb Ymgynghoriad | 31 |
| **Atodiad 2:** Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg | |
| **Atodiad 3:** Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | |
| **Atodiad 4:** Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned | |

# Adran 1

## Rhagarweiniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn awyddus i nodi barn amrywiaeth eang o'i randdeiliaid ynglŷn â'r cynigion i ehangu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu o fewn darpariaeth addysg brif ffrwd y sir.

Bydd y cynigion yn mynd i'r afael â phwysau o ran capasiti mewn perthynas â disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sylweddol yn y Blynyddoedd Cynnar, Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol / Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig yn y Cyfnod Cynradd ac Anawsterau Dysgu Cymhleth yn y Cyfnod Uwchradd, lleihau nifer y trosglwyddiadau sydd eu hangen ar ddisgyblion sy'n cael mynediad i ddarpariaeth Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol / Dosbarth Cynnal Dysgu Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn y Cyfnod Cynradd a sicrhau bod rhagor o Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu mewn Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae'r cynnig yma'n cael ei wneud yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2018 (011/2018).

Diben y cynigion yw ceisio cyflawni'r nodau canlynol:

- osgoi trosglwyddo disgyblion rhwng ysgolion yn ddiangen drwy sefydlu darpariaethau arbenigol ar draws cyfnodau allweddol o fewn ysgolion unigol lle bo modd gwneud hynny;
- datblygu continwwm cadarn o ddarpariaeth sy’n mynd i’r afael yn effeithiol ag ystod eang o anghenion ar draws yr holl grwpiau blwyddyn ac sy’n adeiladu ar ddulliau effeithiol o ymyrraeth gynnar ac atal.
- sefydlu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu mewn lleoliadau gwbl hygyrch sy'n cynnig amgylchedd dysgu sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif
- gwella darpariaethau arbenigol y Blynyddoedd Cynnar ac Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol / Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig i hwyluso addysg disgyblion ag ADY sylweddol yn y Cyfnod Cynradd
- gwella darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu arbenigol yn y Cyfnod Uwchradd ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Dysgu Cymhleth.

Er mwyn cyflawni'r nodau yma, mae'r cynigion yn cynnwys y canlynol:

### *i. Datblygu darpariaethau newydd arfaethedig*

Rydyn ni'n cynnig sefydlu'r dosbarthiadau canlynol o fis Medi 2025:

- Un Dosbarth Cynnal Dysgu (Ymyrraeth) y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sydd ag anghenion sylweddol yn Ysgol Gynradd Cwmaman.
- Un Dosbarth Cynnal Dysgu (Asesu ac Ymyrraeth) y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sydd ag anghenion sylweddol yn Ysgol Gynradd Penyrenglyn.

- Un Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2 gydag Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol / Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Gynradd Hirwaun
- Un Dosbarth Cynnal Dysgu Anawsterau Dysgu Cymhleth ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 7 i 11 yn Ysgol Gyfun Aberpennar.

***ii. Adleoli arfaethedig***

Rydyn ni'n cynnig adleoli'r dosbarth canlynol o fis Medi 2025 ymlaen:

- Symud y Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 3 i 6 ag Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol / Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Gynradd Pen-y-waun i Ysgol Gynradd Hirwaun i greu darpariaeth pob oed yn y Cyfnod Cynradd

Mae cynnig i'r Dosbarth Cynnal Dysgu uchod gael ei adleoli i sicrhau darpariaeth traws-gyfnodol ar un safle hygyrch gyda chyfarpar i ddiwallu ystod o anghenion.

Bydd y cynigion yn sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, a bydd y dosbarthiadau yn cael eu hadleoli i ysgolion newydd, gwell sydd wedi cael budd sylweddol o'r rhaglen foderneiddio Ysgolion yr 21ain Ganrif.

## Â phwy fyddwn ni'n ymgynghori?

Rydyn ni'n ceisio barn y rhanddeiliaid canlynol:

- Cyrff llywodraethu, rhieni/gwarcheidwaid a staff yr ysgolion perthnasol
- Cyrff llywodraethu, rhieni/gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd yn nalgylch yr ysgol uwchradd arfaethedig
- Awdurdod yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig
- Corff Llywodraethu Coleg y Cymoedd
- Corff Llywodraethu Prifysgol De Cymru
- Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn cynnwys y Gweinidog Addysg a Sgiliau
- Menter Iaith
- Mudiad Meithrin
- Flourish Cymru
- Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol holl etholaethau ac ardaloedd rhanbarthol sy'n gwasanaethu Rhondda Cynon Taf
- Estyn
- Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf Morgannwg
- Undebau Llafur Athrawon a Staff Cymorth
- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd – Consortiwm Canolbarth y De
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
- Y Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Cymdeithas Drafnidiaeth De Ddwyrain Cymru
- Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf lleol
- Comisiynydd y Gymraeg
- Awdurdodau Lleol cyfagos
- SNAP Cymru

## Beth fydd y broses ymgynghori yn ei gynnwys?

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 30 Medi 2024 ac yn dod i ben am 5pm ar 15 Tachwedd 2024. Bydd yr adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei gasglu a'i grynhoi, a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor ym mis Rhagfyr 2024. Bydd yr adroddiad ymgynghori yma ar gael i bawb ei weld ar wefan y Cyngor, a bydd copïau ar gael ar gais gan ddefnyddio'r cyfeiriad sydd wedi'i nodi ar **www.rctcbc.gov.uk**.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ac yn penderfynu - yn seiliedig ar yr adborth - a ddylai fwrw ymlaen â'r cynigion, newid y cynnig, neu beidio â bwrw ymlaen. Os bydd y Cabinet yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen, dyna fydd diwedd y cynigion yma am y tro.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynigion, bydd Hysbysiadau Statudol yn cael eu cyhoeddi ym mis Ionawr 2024, a bydd cyfnod o 28 diwrnod o rybudd ar gyfer gwrthwynebiadau.

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) yn ei gwneud hi'n ofynnol bod unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgolion, yn cael y cyfle i wneud hynny. Er mwyn ystyried gwrthwynebiadau yn rhai statudol, **rhaid** eu cyflwyno'n ysgrifenedig / drwy e-bost, a'u hanfon at y Cyngor o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y cafodd y cynnig ei gyhoeddi.

Os bydd gwrthwynebiadau, bydd Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad gwrthwynebu gan ddarparu crynodeb o'r gwrthwynebiadau a'i ymateb iddyn nhw cyn pen 7 diwrnod o gyfarfod Cabinet y Cyngor. Bydd yr adroddiad ymgynghori yma ar gael i bawb ei weld ar wefan y Cyngor hefyd, a bydd copïau ar gael ar gais o'r cyfeiriad sydd wedi'i nodi yn Atodiad 1.

Os yw Cabinet y Cyngor yn cymeradwyo'r cynnig, caiff y cynnig ei weithredu yn unol â'r dyddiad a gafodd ei roi yn yr hysbysiad statudol neu unrhyw ddyddiad sydd wedi'i addasu, wedi hynny. Yn achos y cynigion yma, y dyddiad gweithredu yw mis Medi 2025.

## Yr hyn y bydd angen i chi'i ystyried nawr

Mae gweddill y ddogfen ymgynghori yn nodi'r rhesymeg dros ehangu darpariaeth gyfredol y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu.

Hoffen ni i chi ystyried yr wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn y ddogfen yma, a chlywed eich barn ynglŷn ag a ydych chi'n cefnogi'r cynnig yma ai peidio.

## Sut mae lleisio'ch barn?

Mae'r holiadur ar gyfer yr ymgynghoriad wedi'i atodi (Atodiad 1). Yn ogystal â hynny, mae modd ei lawrlwytho o wefan y Cyngor, sef www.rctcbc.gov.uk. Mae'r holiadur hefyd yn fodd i chi gofrestru'ch dymuniad i gael eich hysbysu am gyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghoriad i Gabinet y Cyngor. Bydd cyfle i ysgolion ymgynghori â'u disgyblion, ac rydyn ni'n eu hannog i weithio gyda chynrychiolwyr Cyngor yr Ysgol er mwyn ceisio barn y disgyblion. Yn ogystal â hynny, mae hawl i chi fynegi'ch barn yn ysgrifenedig, a'i hanfon at:

**Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant,**
**Cyfarwyddiaeth Addysg,**
**Canolfan Menter y Cymoedd**
**Abercynon**
**CF45 4SN**
**Ffôn: (01443) 744333 E-bost: CynaMyn@rctcbc.gov.uk**

Dylai'r holl ohebiaeth ddod i law erbyn 5pm ar 15 Tachwedd 2024.

Nodwch na fydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig. Dim ond ar ôl cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol y mae modd anfon gwrthwynebiadau. Bydd y ddogfennaeth ymgynghori yn cael ei dosbarthu yn Gymraeg a Saesneg.

Bydd achlysuron ymgynghori yn cael eu cynnal, a bydd croeso i chi ddod i'r cyfarfod priodol.

## Achlysuron Ymgynghori

Mae'r achlysuron ymgynghori canlynol wedi'u trefnu:

| Ysgol fydd yn cael ei heffeithio | Grŵp – Disgyblion/Staff/Rhieni | Amser | Dyddiad | Lleoliad |
|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Gyfun Aberpennar** | **Cyngor Ysgol** | **12:30 – 13:15pm** | **Dydd Llun 4 Tachwedd 2024** | **Ysgol Gyfun Aberpennar** |
| | **Rhieni** | **14:15 – 15:00pm** | | |
| | **Staff / Corff Llywodraethu** | **15:30 – 16:15pm** | | |
| **Ysgol Gynradd Cwmaman** | **Cyngor Ysgol** | **13.15 – 14.00pm** | **Dydd Mawrth 5 Tachwedd 2024** | **Ysgol Gynradd Cwmaman** |
| | **Rhieni** | **14.30 – 15.15pm** | | |
| | **Staff / Corff Llywodraethu** | **15.45 – 16.30pm** | | |
| **Ysgol Gynradd Pen-y-waun** | **Cyngor Ysgol** | **13:30 – 14:15pm** | **Dydd Mercher 6 Tachwedd 2024** | **Ysgol Gynradd Pen-y-waun** |
| | **Rhieni** | **14:15 – 15:00pm** | | |
| | **Staff / Corff Llywodraethu** | **15:30 – 16:15pm** | | |
| **Ysgol Gynradd Hirwaun** | **Cyngor Ysgol** | **13:30 – 14:15pm** | **Dydd Iau 7 Tachwedd 2024** | **Ysgol Gynradd Hirwaun** |
| | **Rhieni** | **14:15 – 15:00pm** | | |
| | **Staff / Corff Llywodraethu** | **15:30 – 16:15pm** | | |
| **Ysgol Gynradd Penyrenglyn** | **Cyngor Ysgol** | **13:15 – 14.00pm** | **Dydd Mercher 13 Tachwedd 2024** | **Ysgol Gynradd Penyrenglyn** |
| | **Rhieni** | **14:15 – 15:00pm** | | |
| | **Staff / Corff Llywodraethu** | **15:15 – 16:00pm** | | |

**Barn plant a phobl ifainc**

Mae'r Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi cydnabod bod llais plant a phobl ifainc yn ymwneud â'u cynnwys nhw'n gyfranogwyr gweithredol o'r broses datblygu, cyflawni, rheoli a gwella eu profiad addysgol.

Mae gan blant a phobl ifainc hawl i fynegi eu barn ar bob mater sy'n cael effaith arnyn nhw ac i'w barn gael ei chlywed a'i hystyried yn unol â'u hoedran a'u haeddfedrwydd. Felly, bydd Carfan Ysgolion yr 21ain Ganrif Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn sicrhau bod trefniadau addas yn cael eu gwneud i gynnwys plant a phobl ifainc yn gyfranogwyr gweithredol trwy gydol y broses ymgynghori yma ac, os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnig, drwy gydol y broses weithredu.

Bydd CBSRhCT yn ymgynghori â’r plant a’r bobl ifainc sy’n mynychu:

- Ysgol Gynradd Hirwaun
- Ysgol Gynradd Pen-y-waun
- Ysgol Gynradd Cwmaman
- Ysgol Gynradd Penyrenglyn
- Ysgol Gyfun Aberpennar

Gwneir hyn trwy gynhyrchu fersiwn plant a phobl ifainc o'r Ddogfen Ymgynghori a'r Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad. Fel y manylir ar dudalen 6, bydd y Cyngor yn cynnal cyfarfod gyda Chynghorau pob ysgol sydd wedi'i heffeithio. Bydd adborth o'r cyfarfodydd yma'n cael eu coladu a'u crynhoi, a bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyflwyno i Gabinet CBSRhCT i'w ystyried unwaith y bydd y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben.

## Asesiadau o'r Effaith ar y Gymuned, ar Gydraddoldeb ac ar y Gymraeg

Paratowyd Asesiadau o’r Effaith ar y Gymuned, yr Effaith ar Gydraddoldeb a'r Effaith ar y Gymraeg mewn perthynas â'r cynigion yma ac maen nhw ynghlwm fel atodiadau. Caiff copïau hefyd eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Mae modd cael copïau papur trwy e-bostio cais at **CynaMyn@rctcbc.gov.uk** neu drwy ffonio 01443 744333.

# Adran 2

## Cefndir

Mae gan Gyngor Rhondda Cynon Taf amrywiaeth wych o ddarpariaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol, sy'n golygu bod modd i'r rhan fwyaf o ddisgyblion fynychu ysgol sy'n agos at eu cartrefi. Mae'r ddarpariaeth yma'n cynnwys 48 o Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu sydd ynghlwm â lleoliadau prif ffrwd, 4 Ysgol Arbennig a 2 Uned Atgyfeirio Disgyblion.

Yn ogystal â hyn, caiff £7.25 miliwn ei glustnodi drwy Gyllid Capasiti Ychwanegol (ECF) bob blwyddyn er mwyn helpu disgyblion sydd ag anghenion difrifol a pharhaus mewn lleoliadau prif ffrwd. Mae hyn yn cyd-fynd â gweledigaeth Rhondda Cynon Taf ar gyfer addysg gynhwysol a hawl disgyblion sydd ag ADY i gael eu haddysgu yn eu hysgol prif ffrwd leol pan fo hynny'n addas.

Mae Deddf ALNET yn darparu canllawiau manwl ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau awdurdodau lleol (ALlau) wrth ddiwallu ADY plant a phobl ifainc. Mae gan blant a phobl ifainc Anghenion Dysgu Ychwanegol os oes ganddyn nhw anhawster dysgu sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ar eu cyfer. Mae gan blant a phobl ifainc anawsterau dysgu:

- os ydyn nhw'n cael anhawster i ddysgu sy'n sylweddol fwy na'r anhawster y caiff y rhan fwyaf o blant neu bobl ifainc o'r un oedran; neu
- os oes ganddyn nhw anabledd sy'n eu hatal nhw neu'n eu rhwystro nhw rhag defnyddio cyfleusterau addysgol o'r math a ddarperir fel arfer i blant a phobl ifainc o'r un oedran mewn ysgolion yn yr ardal leol.

Mae Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (2021) yn argymell bod lleoliadau'r Blynyddoedd Cynnar ac ysgolion yn rhoi ymateb graddedig ar waith o ran diwallu'r anghenion yma. Mae ymateb graddedig yn golygu bod modd cyflwyno rhagor o arbenigedd a rhagor o gymorth er mwyn mynd i'r afael ag anawsterau y mae plentyn neu unigolyn ifanc yn eu hwynebu. Dylid gwneud darpariaeth ychwanegol neu wahanol gan ddibynnu ar ddifrifoldeb lefel angen y plentyn / person ifanc.

Mae Adran 316A o Ddeddf Addysg 1996 yn nodi y dylai plant sydd ag ADY gael eu haddysgu mewn ysgolion prif ffrwd fel rheol, ar yr amod eu bod nhw'n gallu derbyn y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n addas ar eu cyfer, bod y disgyblion eraill yn dal i gael eu haddysgu'n effeithlon a bod modd defnyddio adnoddau'n effeithlon. Mae gofyn am leoliadau mwy arbenigol ar gyfer y disgyblion hynny sydd ag anghenion mwy sylweddol, ac efallai y bydd hyn yn arwain at leoli'r disgybl yn un o'n darpariaethau arbenigol. Caiff y camau yma eu cymeradwyo gan baneli'r Adran Mynediad a Chynhwysiant.

Er bod ystod eang o ddarpariaethau Dosbarthiadau Cynnal Dysgu ynghlwm wrth ysgolion prif ffrwd, mae hi wedi dod yn fwyfwy amlwg bod yr amrywiaeth o Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu sydd ar gael ar hyn o bryd yn anghymesur â lefel yr anghenion (er enghraifft Anawsterau Dysgu Cymhleth, Blynyddoedd Cynnar, Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol / Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig) sydd i'w

gweld mewn rhai ardaloedd. Gyda hyn mewn golwg, cafodd ymarfer dadansoddi data manwl ei gynnal er mwyn llywio'r cynigion. Yn seiliedig ar y dadansoddiad yma a gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ALNET), y gred yw bod angen gwella'r ddarpariaeth gyfredol i fynd i'r afael â'r bwlch presennol yn y ddarpariaeth a sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cydymffurfio â'i ddyletswydd ddeddfwriaethol newydd.

Yng nghyd-destun yr uchod, mae'r cynigion ar gyfer newid yn ceisio cyflawni'r nodau canlynol:

- Ehangu'r ddarpariaeth bresennol yn y Cyfnod Cynradd i gyd-fynd â phroffil presennol anghenion plant ag ADY.
- Lleihau nifer y trosglwyddiadau rhwng lleoliadau ar gyfer rhai o'n disgyblion mwyaf agored i niwed.
- Gwella'r ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar i fodloni'r galw cynyddol am ymyrraeth gynnar.
- Gwella darpariaeth y Cyfnod Uwchradd i ddiwallu anghenion disgyblion hŷn sydd angen cymorth gyda'u dysgu

## Trosolwg o'r Cynnig

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn dymuno ceisio barn amrywiaeth eang o randdeiliaid ar y cynigion canlynol:

- Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu (Ymyrraeth) y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol Ysgol Gynradd Cwmaman. Bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith o fis Medi 2025.
- Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu (Ymyrraeth) y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol Ysgol Gynradd Penyrenglyn. Bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith o fis Medi 2025.
- Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion ym Mlynyddoedd 7 i 11 ag Anghenion Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gyfun Aberpennar o fis Medi 2025.
- Symud Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 3 i 6 ag Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol / Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Gynradd Pen-y-waun i Ysgol Gynradd Hirwaun o fis Medi 2025.
- Creu un Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2 ag Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol / Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Gynradd Hirwaun i greu darpariaeth pob oed yn y Cyfnod Cynradd o fis Medi 2025.

## Beth yw sail y cynnig yma?

Mae Adran 315 o Ddeddf Addysg 1996 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gynnal adolygiadau rheolaidd o'r trefniadau sy'n cefnogi disgyblion sydd ag ADY, yn ogystal â sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddigonol ac yn diwallu anghenion y gymuned.

Bydd y cynnig yma i ehangu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn canolbwyntio ar ddarparu cyfleoedd cynhwysiant mwy effeithiol ar gyfer disgyblion sydd ag amrywiaeth o ADY. Mae'r cynigion yn sicrhau bod ein hadnoddau'n

cael eu defnyddio yn y modd gorau posib, ac yn sicrhau ein bod ni'n darparu continwwm ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Caiff pwysigrwydd cynnwys disgyblion sydd ag ADY yn y brif ffrwd ei adlewyrchu yn Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn. Mae'r fframwaith yma'n nodi y dylech chi ystyried y cynnydd a gaiff ei wneud tuag at y nodau dysgu sydd wedi'u cytuno o fannau cychwyn unigol wrth feirniadu cyflawniad pob disgybl, gan gynnwys y rheiny sydd ag ADY. Yn ogystal â hynny, mae'r fframwaith yn cydnabod yr effaith gadarnhaol y mae modd i arbenigedd o fewn Dosbarth Cynnal Dysgu ei gael ar wella ymarfer a gwella deilliannau ar gyfer disgyblion sydd ag ADY ym mhob rhan o'r ysgol.

Mae'r cynigion yn darparu ateb a darpariaeth leol effeithiol ar gyfer disgyblion ag ADY sylweddol heb fod angen teithio'n bell ar draws y fwrdeistref sirol i gael mynediad at ddarpariaeth DCD briodol.

## Gwaith arfaethedig i greu Darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu newydd

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cynnig creu'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu canlynol o 1 Medi 2025:

- Un Dosbarth Cynnal Dysgu (Ymyrraeth) y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sydd ag anghenion sylweddol yn Ysgol Gynradd Cwmaman.
- Un Dosbarth Cynnal Dysgu (Asesu ac Ymyrraeth) y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sydd ag anghenion sylweddol yn Ysgol Gynradd Penyrenglyn.
- Un Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2 ag Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol / Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Gynradd Hirwaun
- Un Dosbarth Cynnal Dysgu Anawsterau Dysgu Cymhleth ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 7 i 11 yn Ysgol Gyfun Aberpennar.

### Gwybodaeth gefndirol am y cynnig i agor Dosbarthiadau Cynnal Dysgu newydd

Mae gwella ansawdd addysg a chodi safonau yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor. Rydyn ni o'r farn y bydd gwella safonau a deilliannau addysgol ar gyfer rhai o'n disgyblion mwyaf agored i niwed yn gwella eu cyfleoedd mewn bywyd, mynediad i fyd gwaith a llwybrau addysg eraill. Mae sicrhau bod ein darpariaethau yn cyd-fynd ag anghenion ein disgyblion yn hanfodol er mwyn cyflawni deilliannau cadarnhaol.

Trwy leoli darpariaeth arbenigol mewn lleoliadau prif ffrwd, bydd cyfle i ddisgyblion gael rhagor o gynhwysiant. Mae Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn yn cydnabod hyn ac yn tynnu sylw at yr effaith gadarnhaol y mae modd i arbenigedd o fewn Dosbarth Cynnal Dysgu ei chael ar wella ymarfer a gwella deilliannau ar gyfer disgyblion sydd ag ADY ym mhob rhan o'r ysgol.

Mae'r cynnig i gynyddu nifer y dosbarthiadau ar gyfer y Cyfnod Uwchradd (Blynyddoedd 7 i 11) yn mynd i'r afael â'r galw cynyddol am Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu uwchradd, yn ogystal â'r anghydbwysedd o ran nifer y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd yn y brif ffrwd. Mae'r cynnig i gynyddu nifer y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu Blynyddoedd Cynnar yn mynd i'r afael â'r galw cynyddol am leoliadau arbenigol i blant o dan oedran ysgol statudol. Mae'r cynnig i gynyddu nifer y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu cyfnod cynradd ar gyfer disgyblion ag Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol / Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn mynd i'r afael â'r twf yn y galw am ddarpariaethau arbenigol cyfnod cynradd ar gyfer disgyblion yn dangos anghenion sylweddol.

Yng ngoleuni gofynion Deddf ALNET, byddai gwneud dim yn golygu na fyddai RhCT yn bodloni ei ddyletswydd statudol i ddiwallu ADY a nodwyd ar gyfer rhai o'i ddisgyblion mwyaf agored i niwed.

Mae angen amlwg am y ddarpariaeth yma yn Rhondda Cynon Taf, a byddai mynd i'r afael â'r mater yma er lles gorau plant a phobl ifainc. Cafodd y syniad o ailgyfeirio adnoddau er mwyn gwella gallu ysgolion prif ffrwd i ddiwallu anghenion mewn ysgolion cymunedol lleol ei ystyried. Fodd bynnag, gallai hyn wneud y continwwm yn fwy tameidiog.

**Gwybodaeth am yr ysgolion sydd wedi'u heffeithio gan y cynigion**

**<u>Ysgol Gynradd Hirwaun</u>**
Mae Ysgol Gynradd Hirwaun ar Stryd Glannant, Hirwaun, Aberdâr, CF44 9NF. Agorodd yr ysgol newydd sbon yn 2020, felly mae wedi elwa ar fuddsoddiad sylweddol rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif. Mae'r ysgol yn ysgol categori Iaith Saesneg.

**Rhagolygon o ran nifer y disgyblion**
Mae nifer y disgyblion a'r rhagolygon ar gyfer Ysgol Gynradd Hirwaun rhwng 2019/20 a 2028/29 wedi'u nodi isod ac maen nhw'n deillio o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) statudol, a gaiff ei gynnal bob mis Ionawr. Caiff y rhagolygon ar gyfer Ysgol Gynradd Hirwaun eu cyfrifo yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae'r niferoedd a gaiff eu dangos yn eithrio disgyblion o oedran meithrin, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Statudol Llywodraeth Cymru.

Nifer y disgyblion a'r rhagolygon:

| **Ysgol Gynradd Hirwaun** | **2019/ 2020** | **2020/ 2021** | **2021/ 2022** | **2022/ 2023** | **2023/ 2024** | **2024/ 2025** | **2025/ 2026** | **2026/ 2027** | **2027/ 2028** | **2028/ 2029** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr Ysgol (Meithrin 1 i Flwyddyn 6) | 248 | 264 | 272 | 272 | 275 | 275 | 272 | 262 | 263 | 244 |
| Cyfanswm (Dosbarth | 211 | 217 | 237 | 233 | 233 | 238 | 237 | 228 | 233 | 216 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Derbyn i Flwyddyn 6) | | | | | | | | | | |

Nifer y lleoedd: 394

**Ansawdd a Safonau**
Cafodd arolygiad o'r ysgol ei gynnal ym mis Chwefror 2018 a dyma grynhoi'r sylwadau:

| Inspection area | Judgement |
|---|---|
| Standards | Adequate and needs improvement |
| Wellbeing and attitudes to learning | Adequate and needs improvement |
| Teaching and learning experiences | Unsatisfactory and needs urgent improvement |
| Care, support and guidance | Good |
| Leadership and management | Adequate and needs improvement |

Derbyniodd Ysgol Gynradd Hirwaun arolygiad dilynol gan Estyn ym mis Gorffennaf 2019 a dyma adroddodd Estyn yn dilyn hynny: *Rydyn ni o'r farn bod Ysgol Gynradd Hirwaun wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf. O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion sydd angen gwella'n sylweddol.*

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd rhagorol ers yr arolygiad gwreiddiol yn 2018.

Os caiff y cynnig ei roi ar waith, bydd y Dosbarth Cynnal Dysgu newydd yn darparu lle i 8 o ddisgyblion y cyfnod cynradd ag Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol / Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig. Fodd bynnag, o ystyried maint yr ystafelloedd dosbarth arfaethedig mae'n werth nodi y bydd modd cynyddu hyn gyda'r staffio cywir yn y fan a'r lle yn y dyfodol.

**<u>Ysgol Gynradd Cwmaman</u>**
Mae Ysgol Gynradd Cwmaman ar Heol Glanaman, Cwmaman, Aberdâr, CF44 6LA. Mae'r ysgol yn ysgol categori Iaith Saesneg.

**Rhagolygon o ran nifer y disgyblion**
Mae nifer y disgyblion a'r rhagolygon ar gyfer Ysgol Gynradd Cwmaman rhwng 2019/20 a 2028/29 wedi'u nodi isod ac maen nhw'n deillio o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) statudol, a gaiff ei gynnal bob mis Ionawr. Caiff y rhagolygon ar gyfer Ysgol Gynradd Cwmaman eu cyfrifo yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae'r niferoedd a gaiff eu dangos yn eithrio disgyblion o oedran meithrin, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Statudol Llywodraeth Cymru.

Nifer y disgyblion a'r rhagolygon:

| Ysgol Gynradd Cwmaman | 2019/ 2020 | 2020/ 2021 | 2021/ 2022 | 2022/ 2023 | 2023/ 2024 | 2024/ 2025 | 2025/ 2026 | 2026/ 2027 | 2027/ 2028 | 2028/ 2029 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr Ysgol (Meithrin 1 i Flwyddyn 6) | 231 | 226 | 208 | 214 | 205 | 196 | 189 | 177 | 155 | 148 |
| Cyfanswm (Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6) | 199 | 196 | 173 | 191 | 188 | 172 | 169 | 160 | 140 | 134 |

Nifer y lleoedd: 239

**Ansawdd a Safonau**
Cafodd yr ysgol arolygiad cadarnhaol iawn ym mis Mawrth 2024 â dim ond un argymhelliad. Sef, *gwella adborth athrawon i sicrhau bod disgyblion yn deall a bod modd iddyn nhw weithredu ar y camau nesaf yn eu dysgu.* Yn ôl adroddiad yr arolygiad: *Mae'r pennaeth yn arweinydd trugarog a chaiff ei ddull o ddatblygu ysgol gynhwysol a gofalgar ei werthfawrogi'n fawr gan rieni, staff a disgyblion.*

Bydd y cynnig yma yn mynd i'r afael â'r bwlch presennol yn y ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion sydd ag ADY sylweddol. Os caiff y cynnig ei roi ar waith, bydd y Dosbarth Cynnal Dysgu (Ymyrraeth) newydd ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar yn ddelfrydol yn cynnig lle i 8 disgybl o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol.

<u>**Ysgol Gynradd Penyrenglyn**</u>
Mae Ysgol Gynradd Penyrenglyn ar Stryd Baglan, Treherbert, Treorci, CF42 5AW. Mae'r ysgol yn ysgol categori Iaith Saesneg.

**Rhagolygon o ran nifer y disgyblion**
Mae nifer y disgyblion a'r rhagolygon ar gyfer Ysgol Gynradd Penyrenglyn rhwng 2019/20 a 2028/29 wedi'u nodi isod ac maen nhw'n deillio o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) statudol, a gaiff ei gynnal bob mis Ionawr. Caiff y rhagolygon ar gyfer Ysgol Gynradd Penyrenglyn eu cyfrifo yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae'r niferoedd a gaiff eu dangos yn eithrio disgyblion o oedran meithrin, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Statudol Llywodraeth Cymru.

Nifer y disgyblion a'r rhagolygon:

| Ysgol Gynradd Penyrenglyn | 2019/ 2020 | 2020/ 2021 | 2021/ 2022 | 2022/ 2023 | 2023/ 2024 | 2024/ 2025 | 2025/ 2026 | 2026/ 2027 | 2027/ 2028 | 2028/ 2029 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr Ysgol | 192 | 203 | 188 | 187 | 186 | 183 | 179 | 180 | 153 | 145 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| (Meithrin 1 i Flwyddyn 6) | | | | | | | | | | |
| Cyfanswm (Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6) | 158 | 178 | 167 | 161 | 166 | 163 | 157 | 160 | 135 | 130 |

Nifer y lleoedd: 246

**Ansawdd a Safonau**
Cafodd yr ysgol arolygiad cadarnhaol ym mis Tachwedd 2023 pan nododd yr arolygwyr y cynnydd a oedd yn cael ei wneud gan y pennaeth a oedd newydd ei benodi bryd hynny. Yn ôl adroddiad yr arolygiad:

- *Mae Ysgol Gynradd Penyrenglyn yn ysgol gynhwysol, ofalgar sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i bwysigrwydd datblygu perthnasoedd cadarnhaol gyda staff, disgyblion, rhieni a'r gymuned ehangach.*
- *Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol wrth ddatblygu eu sgiliau llafaredd, darllen a rhifedd.*.

Bydd y cynnig yma yn mynd i'r afael â'r bwlch presennol yn y ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion sydd ag ADY sylweddol. Os caiff y cynnig ei roi ar waith, bydd y Dosbarth Cynnal Dysgu (Ymyrraeth) newydd ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar yn cynnig lle i 8 disgybl o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol.

**<u>Ysgol Gyfun Aberpennar</u>**
Mae Ysgol Gyfun Aberpennar ar Heol Newydd, Aberpennar, CF45 4DG. Mae'r ysgol yn ysgol categori Iaith Saesneg.

**Rhagolygon o ran nifer y disgyblion**
Mae nifer y disgyblion a'r rhagolygon ar gyfer Ysgol Gyfun Aberpennar rhwng 2019/20 a 2028/29 wedi'u nodi isod ac maen nhw'n deillio o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) statudol, a gaiff ei gynnal bob mis Ionawr. Caiff y rhagolygon ar gyfer Ysgol Gyfun Aberpennar eu cyfrifo yn unol â'r canllawiau gan Lywodraeth Cymru. Mae'r niferoedd a gaiff eu dangos yn eithrio disgyblion o oedran meithrin, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Statudol Llywodraeth Cymru.

Nifer y disgyblion a'r rhagolygon:

| Ysgol Gyfun Aberpennar | 2019/ 2020 | 2020/ 2021 | 2021/ 2022 | 2022/ 2023 | 2023/ 2024 | 2024/ 2025 | 2025/ 2026 | 2026/ 2027 | 2027/ 2028 | 2028/ 2029 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr Ysgol (Blynyddoedd 7 i 11) | 885 | 929 | 928 | 900 | 899 | 838 | 850 | 851 | 864 | 831 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm (Blynyddoedd 7 i 13) | 973 | 1019 | 1023 | 983 | 981 | 928 | 934 | 931 | 942 | 913 |

*Nifer y lleoedd: 1394*

**Ansawdd a Safonau**

Cynhaliodd Estyn arolygiad o'r ysgol ym mis Tachwedd 2018. Yn dilyn yr arolygiad, cafodd yr ysgol ei rhoi ar restr adolygu Estyn. Ym mis Mawrth 2021 roedd digon o gynnydd wedi'i wneud a chafodd yr ysgol ei thynnu o'r rhestr. Mae gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud ers 2018.

| Inspection area | Judgement |
|---|---|
| Standards | Adequate and needs improvement |
| Wellbeing and attitudes to learning | Adequate and needs improvement |
| Teaching and learning experiences | Adequate and needs improvement |
| Care, support and guidance | Good |
| Leadership and management | Adequate and needs improvement |

Os caiff y cynnig ei roi ar waith, yna bydd yr ysgol yn cynnal Dosbarth Cynnal Dysgu sy'n cynnig lle i 14 o ddisgyblion ym Mlynyddoedd 7 i 11 ag Anawsterau Dysgu Cymhleth a bydd yn sicrhau bod y bwlch presennol yn y ddarpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn y cyfnod uwchradd ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Cymhleth yn cael sylw.

## Adleoli Dosbarthiadau Cynnal Dysgu Arfaethedig

Rydyn ni'n cynnig adleoli'r dosbarth canlynol o fis Medi 2025 ymlaen:

- Symud y Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 3 i 6 ag Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol / Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Gynradd Pen-y-waun i Ysgol Gynradd Hirwaun i greu darpariaeth pob oed yn y Cyfnod Cynradd

**Gwybodaeth gefndirol am y cynnig i adleoli Dosbarth Cynnal Dysgu.**

Mae gwella ansawdd addysg a chodi safonau yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor. Rydyn ni o'r farn y bydd gwella safonau a deilliannau addysgol ar gyfer rhai o'n disgyblion mwyaf agored i niwed yn gwella eu cyfleoedd mewn bywyd, mynediad i fyd gwaith a llwybrau addysg eraill. Mae sicrhau bod ein darpariaethau yn cyd-fynd ag anghenion ein disgyblion yn hanfodol er mwyn cyflawni deilliannau cadarnhaol.

Rydyn ni'n cynnig adleoli'r Dosbarth Cynnal Dysgu yma i safle sy'n fwy hygyrch ac yn meddu ar adnoddau gwell i ddiwallu amrywiaeth o anghenion. Bydd y cynigion yn

sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, a bydd y dosbarth yn cael ei symud i safle newydd sbon sydd wedi'i hadeiladu yn rhan o'r rhaglen foderneiddio Ysgolion yr 21ain Ganrif. Bydd hyn yn osgoi trosglwyddo disgyblion sydd ag anghenion sylweddol yn ddiangen, yn sicrhau dilyniant o ran eu lleoliadau addysgol ac yn sicrhau bod nifer uwch o Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu arbenigol RhCT yn rhoi tegwch i ddisgyblion mewn Dosbarthiadau Cynnal Dysgu fel eu bod nhw'n aros ar un lleoliad nes pontio i addysg uwchradd.

**Gwybodaeth am yr ysgol sydd wedi'i heffeithio gan y cynnig**

Mae gwybodaeth am Ysgol Gynradd Pen-y-waun isod gyda'r wybodaeth berthnasol ar gyfer Ysgol Gynradd Hirwaun y cyfeiriwyd ati eisoes.

**<u>Ysgol Gynradd Pen-y-waun</u>**

Mae Ysgol Gynradd Pen-y-waun wedi'i lleoli yng Nghoed Glas, Pen-y-waun, Aberdâr, CF44 9DR. Mae hon yn ysgol cyfrwng Saesneg, ac mae hi wedi'i lleoli mewn adeilad modern o frics a blociau. Mae'r ysgol mewn cyflwr da. Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol un Dosbarth Cynnal Dysgu i gefnogi 10 disgybl ym Mlynyddoedd 3 i 6 ag Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol / Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig.

**Rhagolygon o ran nifer y disgyblion**

Mae nifer y disgyblion a'r rhagolygon ar gyfer Ysgol Gynradd Pen-y-waun rhwng 2019/20 a 2028/29 wedi'u nodi isod ac maen nhw'n deillio o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) statudol, a gaiff ei gynnal bob mis Ionawr. Caiff y rhagolygon ar gyfer Ysgol Gynradd Pen-y-waun eu cyfrifo yn unol â'r canllawiau gan Lywodraeth Cymru. Mae'r niferoedd a gaiff eu dangos yn eithrio disgyblion o oedran meithrin, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Statudol Llywodraeth Cymru. Serch hynny, rydyn ni wedi nodi capasiti'r dosbarth meithrin ar wahân.

Nifer y disgyblion a'r rhagolygon:

| **Ysgol Gynradd Pen-y-waun** | **2019/ 2020** | **2020/ 2021** | **2021/ 2022** | **2022/ 2023** | **2023/ 2024** | **2024/ 2025** | **2025/ 2026** | **2026/ 2027** | **2027/ 2028** | **2028/ 2029** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr Ysgol (Meithrin 1 i Flwyddyn 6) | 199 | 202 | 187 | 191 | 191 | 201 | 208 | 215 | 224 | 222 |
| Cyfanswm (Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6) | 178 | 179 | 166 | 168 | 157 | 175 | 183 | 190 | 202 | 202 |

*Nifer y lleoedd: 253*

Cafodd Ysgol Gynradd Pen-y-waun ei harolygiad diwethaf gan Estyn ym mis Mawrth 2017. Dyma grynodeb o'r sylwadau isod:

| Cyflawniad cyfredol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon yr ysgol o ran gwella | Digonol |

Yn dilyn yr arolygiad cafodd yr ysgol ei rhoi ar restr adolygu Estyn. Ym mis Rhagfyr 2018 roedd digon o gynnydd digonol wedi'i wneud a chafodd yr ysgol ei thynnu o'r rhestr.

## Pa opsiynau eraill sydd wedi cael eu hystyried?

Yng ngoleuni gofynion Deddf ALNET, byddai gwneud dim yn golygu na fyddai RhCT yn bodloni ei ddyletswydd statudol i ddiwallu ADY a nodwyd ar gyfer rhai o'i ddisgyblion mwyaf agored i niwed.

Mae angen amlwg am y ddarpariaeth yma yn Rhondda Cynon Taf, a byddai mynd i'r afael â'r mater yma er lles gorau plant a phobl ifainc. Cafodd y syniad o ailgyfeirio adnoddau er mwyn gwella gallu ysgolion prif ffrwd i ddiwallu anghenion mewn ysgolion cymunedol lleol ei ystyried. Fodd bynnag, gallai hyn wneud y continwwm yn fwy tameidiog.

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru (011/2018), cafodd opsiynau eraill eu nodi a’u hystyried yn ymwybodol. Mae rhai o fuddion ac anfanteision pob opsiwn a gafodd ei ddiystyru i'w gweld yn y tabl canlynol:

| Opsiwn | Buddion | Anfanteision |
|---|---|---|
| Cadw pethau fel y maen nhw. | • Dim angen buddsoddiad gan y Cyngor.<br>• Dim tarfu ar nifer fach iawn o ddisgyblion, rhieni/gwarcheidwaid a staff.<br>• Dim effaith ar gludiant o'r cartref i'r ysgol. | • Fyddai dim modd i'r Cyngor barhau i fodloni ei ddyletswyddau statudol i ddiwallu anghenion disgyblion nad oes modd diwallu eu ADY trwy ddarpariaeth dysgu ychwanegol prif ffrwd mewn ysgolion ac sydd angen mynediad at ddarpariaeth DCD arbenigol.<br>• Cynnydd posibl yn nifer yr apeliadau costus iawn a gyflwynir gan rieni/gwarcheidwaid i Dribiwnlys Addysg Cymru.<br>• Cynnydd yn y gofyn am leoliadau arbenigol costus iawn y tu allan i'r sir.<br>• Disgyblion yn gorfod cyrchu darpariaethau arbenigol y tu allan i'w cymuned leol. |

| Opsiwn | Buddion | Anfanteision |
|---|---|---|
| | | • Byddai disgyblion yn parhau i brofi nifer uwch o gyfnodau pontio na chyfoedion prif ffrwd yn y cyfnod cynradd – ddim yn gyfartal â chyfoedion prif ffrwd. |
| Ystyried gwella darpariaethau DCD o fewn yr ysgolion cynnal presennol. | • Dim tarfu tymor byr ar y nifer fach o ddisgyblion sy'n mynychu DCD y cyfnod cynradd ar gyfer Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol / ASD yn Ysgol Gynradd Pen-y-waun.<br>• Dim amhariad tymor byr i'r ysgolion cynnal newydd.<br>• Dim effaith ar y staff sy'n gweithio yn yr LSC ar gyfer Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol / ASD yn Ysgol Gynradd Pen-y-waun.<br>• Dim effaith ar gludiant o'r cartref i'r ysgol. | • Byddai cyfyngiadau rhai ysgolion cynnal presennol o ran amgylchedd ffisegol yn cyfyngu ar y gallu i wella capasiti'r DCDau o fewn amgylchedd cwbl hygyrch sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif gyda chyfleusterau awyr agored priodol.<br>• Mae angen buddsoddiad sylweddol gan Gymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru – ar hyn o bryd does dim cyllid wedi'i ddyrannu ar gyfer hyn.<br>• Byddai diffyg lleoedd dros ben mewn rhai ysgolion cynnal yn golygu na fyddai'n bosibl cynyddu nifer y DCD yn yr ysgolion hynny.<br>• Fyddai buddion mynd i'r afael â chapasiti dros ben mewn amgylcheddau ysgol o ansawdd uchel sydd wedi cael buddsoddiad sylweddol gan raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru i sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel i ddisgyblion sydd angen darpariaeth DCD ddim yn cael eu gwireddu.<br>• Byddai diffyg darpariaeth arbenigol yn parhau mewn rhai ardaloedd o'r fwrdeistref sirol, gan ei gwneud yn ofynnol i ddisgyblion deithio'n bell y tu allan i'w cymuned leol i gael mynediad i ddarpariaeth DCD. |

Er ein bod ni wedi ystyried opsiynau eraill, dydyn ni ddim wedi bwrw ymlaen â nhw am fod manteision amlwg i'w cael o roi'r newidiadau yma ar waith. Dyma grynodeb ohonyn nhw:

- *Dosbarthiadau rydyn ni'n cynnig eu hagor:* Byddai modd cysylltu ag ysgolion eraill er mwyn sefydlu darpariaeth arbenigol. Serch hynny, cafodd Ysgol Gynradd Gymunedol Hirwaun, Ysgol Gynradd Penyrenglyn, Ysgol Gynradd Cwmaman ac Ysgol Gyfun Aberpennar eu dewis am eu harfer cynhwysol a'u llwyddiant wrth gefnogi disgyblion ag ADY/AAA yn y brif ffrwd, a/neu fuddsoddiad sylweddol o'r rhaglen foderneiddio Ysgolion yr 21ain Ganrif. Yn ogystal â hynny, bydd lleoliad y lleoliadau yma yn mynd i'r afael ag anghenion y bobl leol. Byddai sefydlu'r dosbarthiadau yma yn lleihau'r galw am leoliadau mewn ysgolion arbennig y mae modd eu diogelu ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu, meddygol a chorfforol mwy cymhleth.
- *Adleoli arfaethedig:* Cafodd y lleoliad newydd arfaethedig ei ddewis am ei fod yn rhoi cyfleoedd gwell i ddisgyblion sydd ag ADY i fanteisio ar ddarpariaeth addysgol o ansawdd ar draws y cyfnodau allweddol, a hynny mewn amgylchedd ysgol sydd wedi cael budd o raglenni moderneiddio a buddsoddi.

## Beth yw buddion ac anfanteision, risgiau a ffactorau lliniaru y cynigion?

Bydd y cynigion yn sicrhau rhagor o gydraddoldeb a mynediad at ddarpariaeth arbenigol ar gyfer disgyblion ag ADY sylweddol a chymhleth sydd angen lleoliad arbenigol.

Mae'n anochel y bydd unrhyw gynigion sy'n cynnwys ad-drefnu ysgolion yn achosi rhywfaint o darfu ac ansicrwydd. Serch hynny, mae profiad yn dangos bod modd achosi cyn lleied o darfu â phosibl trwy ymgysylltu ystyrlon trwy gydol y broses ymgynghori ac, os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnig, drwy gydol y broses weithredu hefyd.

Mae'r Cyngor o'r farn bod manteision addysgol y cynigion yn gorbwyso effaith tymor byr y newidiadau ar gyfer disgyblion a rhieni.

Mae buddion ac anfanteision y cynnig i'w gweld yn y tabl sy'n dilyn, yn ogystal â gwybodaeth o ran sut y mae modd rheoli unrhyw risgiau a nodir.

| Buddion |
|---|
| Bydd cynyddu nifer y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu a gynhelir gan ysgolion prif ffrwd yn sicrhau y bydd nifer uwch o ddisgyblion ag ADY sylweddol a chymhleth yn cael gwell cyfleoedd ar gyfer cynhwysiant prif ffrwd. |
| Bydd cynyddu nifer yr ysgolion prif ffrwd sy'n cynnal Dosbarth Cynnal Dysgu yn gwella arfer ac yn dod ag arbenigedd ychwanegol i bob disgybl ag ADY ar draws yr ysgolion hyn. |
| Bydd cynyddu nifer y Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar, disgyblion y cyfnod Cynradd ag Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol / ASD a disgyblion y cyfnod uwchradd ag ADY cymhleth yn mynd i’r afael â’r twf yn y galw |

| |
|---|
| am leoliadau arbenigol ac yn sicrhau bod disgyblion yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth ADY priodol. |
| Bydd sefydlu Dosbarth Cynnal Dysgu y Blynyddoedd Cynnar newydd a Dosbarth Cynnal Dysgu cyfnod uwchradd newydd yn gwella darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu ardal Cwm Cynon gan alluogi disgyblion i gael mynediad i ddarpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu arbenigol yn eu cymuned leol. |
| Bydd sefydlu Dosbarth Cynnal Dysgu y Blynyddoedd Cynnar newydd yn Ysgol Gynradd Penyrenglyn yn sicrhau bod plant cyn-ysgol ar frig Cwm Rhondda Fawr sydd angen darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu arbenigol yn gallu cael mynediad i ddarpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu yn eu cymuned leol heb fod angen iddyn nhw deithio'n bell. |
| Bydd galluogi disgyblion ag ADY sylweddol a chymhleth i gael mynediad i ddarpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu yn eu cymuned leol yn lleihau’r angen i deithio’n bellach ar draws y fwrdeistref sirol i gael mynediad at ddarpariaeth briodol, gan gefnogi Cynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru Carbon Isel. Mae Ysgol Gynradd Hirwaun ac Ysgol Gynradd Cwmaman hefyd wedi’u hadeiladu i safonau Rhagorol BREEAM, ac mae ganddi sgôr A o ran y Dystysgrif Perfformiad Ynni. Mae gan Ysgol Hirwaun bwyntiau gwefru cerbydau trydan ar y safle, sy’n cyfrannu at gyflawni Strategaeth Mynd i’r Afael â Newid yn yr Hinsawdd Cyngor Rhondda Cynon Taf: 2022 i 2025 – Hinsawdd Ystyriol Rhondda Cynon Taf ac mor agos â phosibl at fod yn garbon niwtral fel Bwrdeistref Sirol erbyn 2030. |
| Sefydlu Dosbarth Cynnal Dysgu cyfnod cynradd newydd o'r Dosbarth Derbyn – Blwyddyn 2 ar gyfer disgyblion ag Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol / ASD yn Ysgol Gynradd Hirwaun ac adleoli’r Dosbarth Cynnal Dysgu Blynyddoedd 3 – 6 cynradd ar gyfer disgyblion ag Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol / ASD i Ysgol Gynradd Hirwaun yn cynyddu’r ddarpariaeth arbenigol sydd ar gael ar gyfer Dosbarth Derbyn - Disgyblion Blwyddyn 2 yn unol â’r galw cynyddol a nodwyd am leoliadau arbenigol a lleihau’r cyfnod pontio diangen i ddisgyblion ag ADY sylweddol, gan ddarparu parhad yn eu lleoliad addysgol a thegwch i ddisgyblion mewn Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn unol â’u cyfoedion prif ffrwd aros mewn un lleoliad cyfnod cynradd tan y cyfnod pontio. i ddarpariaeth uwchradd. |
| Bydd tri o'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu newydd yn cael eu cynnal gan ysgolion sydd wedi elwa ar fuddsoddiad cyfalaf Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu. Bydd mynychu ysgol yr 21ain ganrif newydd yn arwain at welliant sylweddol yn ansawdd y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y disgyblion hynny sydd angen lleoliad arbenigol, gan gael effaith gadarnhaol sylweddol ar eu cyflawniad addysgol. Mae pob lleoliad arfaethedig ar gyfer y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn gwbl hygyrch. |
| **Anfanteision** |
| Mae'n bosibl y bydd rhai o ddisgyblion a staff presennol Dosbarth Cynnal Dysgu Ysgol Gynradd Pen-y-waun yn byw ymhellach o safle'r ysgol newydd yn Ysgol Gynradd Hirwaun. Fodd bynnag, mae staff sy'n gweithio yn Dosbarth Cynnal Dysgu Ysgol Gynradd Pen-y-waun yn cael eu cyflogi'n ganolog gan y gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant ac, felly, yn unol â Thelerau ac Amodau eu contract cyflogaeth, mae modd ei gwneud yn ofynnol iddyn nhw adleoli i weithio mewn unrhyw ysgol o fewn yr Awdurdod Lleol. |
| Bydd y cynnig i adleoli'r Dosbarth Cynnal Dysgu o Ysgol Gynradd Pen-y-waun yn tarfu rhywfaint ar nifer fach o ddisgyblion sy'n defnyddio'r Dosbarth Cynnal Dysgu ar hyn o bryd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bydd effaith ar Ysgol Gynradd Pen-y-waun o dynnu Dosbarth Cynnal Dysgu gwerthfawr o'i chymuned ysgol. Bydd yr ysgol yn parhau i gael cymorth gan y gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant i fodloni ADY ei charfan prif ffrwd. | | | |
| Bydd cynnydd mewn costau cludiant o'r cartref i'r ysgol yn ogystal â chostau sefydlu a chynnal y darpariaethau newydd a fydd yn cael eu talu gan CBSRhCT. | | | |
| Gallai symud i safle yr ysgol newydd achosi gorbryder ar gyfer rhai disgyblion, staff a rhieni/gwarcheidwaid. | | | |
| Bydd rhywfaint o effaith tymor byr ar yr ysgolion prif ffrwd newydd sy'n cynnal. Bydd Mynediad a Chynhwysiant yn darparu cymorth ac arweiniad i ysgolion cynnal mewn perthynas â sefydlu'r DCDau, recriwtio / adleoli staff a chyllid parhaus a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth. | | | |
| **Peryglon** | **Tebygolrwydd** | **Effaith** | **Cam(au) Lliniaru** |
| **Cymmeradwyaeth** – Mae rhieni / gwarcheidwaid yn dewis peidio ag anfon eu plant i'r ddarpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu wedi'i hadleoli ar gyfer disgyblion ag anghenion cymdeithasol, cyfathrebu / ASD yn Ysgol Gynradd Hirwaun. | Canolig | Canolig | • Bydd Carfan Ysgolion yr 21ain Ganrif Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn gofalu bod trefniadau addas yn cael eu gwneud i gynnwys rhieni/gwarcheidwaid a phlant a phobl ifainc yn gyfranogwyr gweithredol trwy gydol y broses ymgynghori ac, os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnig, drwy gydol y broses weithredu hefyd.<br>• Bydd Mynediad a Chynhwysiant yn gweithio gyda theuluoedd disgyblion y mae’r cynigion yn effeithio’n uniongyrchol arnyn nhw i roi cynlluniau pontio cadarn ar waith i symud i’r Dosbarth Cynnal Dysgu wedi’i adleoli yn Ysgol Gynradd Hirwaun, gan gydweithio â rhieni a staff yn yr ysgol a chynnwys cymorth ychwanegol gan aelodau arbenigol o staff y gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol** – Cynnydd mewn costau cludiant o'r cartref i'r ysgol. | Canolig | Isel | • Y Cyngor fydd yn gyfrifol am unrhyw oblygiadau refeniw sy'n codi o ganlyniad i gludiant o'r cartref i'r ysgol. Fydd yr ysgol a rhieni / gwarcheidwaid y disgyblion a fydd angen cludiant o'r cartref i'r ysgol o ganlyniad i'r cynigion ddim yn cael eu heffeithio.<br>• Bydd gan ddisgyblion sy'n defnyddio Dosbarthiadau Cynnal Dysgu hawl i gludiant o'r cartref i'r ysgol yn unol â Pholisi Teithio Disgyblion y Cyngor a lleoliad yn y lleoliad arbenigol mwyaf addas agosaf. |
| **Effaith ar ysgolion cynnal prif ffrwd -** tarfu tymor byr ar sefydlu cychwynnol y Dosbarth Cynnal Dysgu a threfniadaeth / rheolaeth llinell barhaus ac effaith ar staff presennol y DCD | Canolig | Canolig | • Bydd ysgolion cynnal newydd yn cael eu hariannu'n llawn ar gyfer unrhyw gostau sefydlu yr eir iddyn nhw megis mân addasiadau i'r amgylchedd ffisegol, adnoddau ac offer ar gyfer y DCD. Bydd ysgolion yn derbyn cyllideb flynyddol ar gyfer costau parhaus.<br>• Mae arferion cydweithio sefydledig a phrotocolau cytûn rhwng Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant yr ALI a'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu i sicrhau bod ysgolion yn cael eu cefnogi gyda rheolaeth llinell y Dosbarth Cynnal Dysgu a hefyd i sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth ddysgu yn cael ei adolygu'n gyson.<br>• Mae staff y DSC yn cael eu cyflogi'n ganolog gan |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | y gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant a gellir eu hadleoli i wahanol leoliadau ysgol yn unol â gofynion yr ALl, yn unol â Thelerau ac Amodau eu contract cyflogaeth.<br>• Bydd staff ac unrhyw Undebau Llafur perthnasol yn cael gwybod am unrhyw ddiweddariadau neu benderfyniadau sy'n cael eu gwneud. Mae gan CBSRhCT bolisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol cadarn a fydd yn rhoi sicrwydd i staff a chyflogwyr ynglŷn â rheoli newid sefydliadol. |
| **Effaith ar y Gymuned** | Isel | Isel | • Bydd mwy o ddisgyblion yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth arbenigol yn eu cymunedau lleol.<br>• Bydd y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn gwneud defnydd effeithiol o unrhyw leoedd dros ben mewn ysgol, ac yn creu adnodd a fydd o fudd i ddisgyblion sy'n agored i niwed, yn ogystal â'u rhieni/gwarcheidwaid.<br>• Bydd effaith gadarnhaol ar ddeilliannau iechyd, lles ac addysgol disgyblion sy'n gallu cael mynediad at ddarpariaeth DSC arbenigol briodol yn eu hardal.<br>• Bydd mwy o ysgolion prif ffrwd yn elwa o arbenigedd ADY ychwanegol o fewn eu lleoliadau ysgol a fydd o fudd i ddisgyblion ag |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ADY ar draws cymuned yr ysgol. |

## Y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

Rhaid i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru lunio Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Dogfen gynllunio iaith tymor hir yw'r CSGA sy'n pennu'r cyfeiriad o ran cynllunio, cyflenwi a thwf strategol addysg cyfrwng Cymraeg ac addysgu'r Gymraeg fel pwnc. Nod y Cyngor trwy'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, cynllunio strategol effeithiol a buddsoddiad yw cyfrannu'n sylweddol at gyflawni'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 fel sydd wedi'i nodi yn nogfen Cymraeg 2050. Mae modd gweld Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg presennol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a'i lawrlwytho o wefan y Cyngor drwy'r ddolen ganlynol:

https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/SchoolsandLearning/SchoolAdmissions/relateddocuments/WESPJune2022.pdf

Mae saith deilliant yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor a fydd yn helpu'r Cyngor i gyflawni'r targedau sydd wedi'u gosod. Un o'r targedau yma yw:

- Mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol.

Nod CBSRhCT yw ymgorffori arferion ac agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg trwy gynllunio pwrpasol a hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith disgyblion yn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach. Mae pob ysgol a nodir yn y cynnig ar hyn o bryd yn cefnogi'r nod yma ac yn annog disgyblion i ddefnyddio Cymraeg achlysurol lle bynnag y bo modd. Anogir disgyblion sy'n mynychu'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu i ddefnyddio Cymraeg achlysurol a chaiff cynllunio ar gyfer y Gymraeg yn y cwricwlwm ei fonitro yn rhan o sicrhau ansawdd y ddarpariaeth addysgol o fewn y DCDau. Mae hyn yn cyd-fynd â chynllun gweithredu'r ALl o dan Ganlyniad 6 y CSCA sy'n ymwneud yn benodol ag ADY. Bydd disgyblion yn parhau i gael eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gael mynediad i DCD.

Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer y cynnig yma wedi'i baratoi ac mae wedi'i gynnwys yn y dogfennau ymgynghori. Mae hwn ar gael ar wefan y Cyngor.

# Adran 3

## Beth yw'r sail addysgol ar gyfer y cynnig i greu rhagor o Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu?

Mae'r buddiannau sydd i'w cael o roi'r newidiadau yma ar waith yn cynnwys:

- rhagor o ffocws ar wella darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu prif ffrwd, sy'n rhoi cyfleoedd bywyd gwell i'n disgyblion sydd fwyaf agored i niwed;
- darparu continwwm priodol sy'n cyd-fynd â phrif anghenion y disgyblion;
- deilliannau addysgol gwell a chyswllt gwell gyda'r disgyblion am ein bod ni'n diwallu anghenion y disgyblion yn effeithiol;
- rhagor o gyfleoedd o ran cynnwys disgyblion yn y brif ffrwd mewn ysgolion cymuned lleol;
- sicrhau bod Dosbarthiadau Cynnal Dysgu wedi'u lleoli mewn safleoedd addysgol sy'n hygyrch ac yn briodol ar gyfer disgyblion sydd ag amrywiaeth eang o anghenion, gan gynnwys anghenion corfforol a meddygol;
- gwella ystod ac ansawdd y cyfleusterau ac adnoddau dysgu sydd ar gael er budd y disgyblion i gyd;
- darpariaethau Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn cael eu cynnal gan ysgolion sydd â'r gallu i ddatblygu dosbarthiadau ychwanegol oherwydd bod ganddyn nhw leoedd dros ben ac yn gallu darparu lleoedd i'r disgyblion ychwanegol a fydd yn cael eu lleoli yn yr ysgolion.

## Yr effaith ar ddarpariaeth ADY a sut y bydd y cynigion yn cyfrannu at wella ansawdd addysg a chymorth i blant ag ADY:

## Beth fydd effaith debygol y cynigion ar ddisgyblion yr ysgol?

Rydyn ni'n rhagweld y bydd y cynigion yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar ddisgyblion ag ADY drwy ddarparu model cynhwysol o ddarpariaeth arbenigol a fydd yn cael ei gynnal gan ysgol prif ffrwd er mwyn diwallu anghenion y disgyblion yn eu cymuned leol.

Caiff trafnidiaeth ei darparu yn unol â Pholisi Teithio gan Ddisgyblion y Cyngor a chaiff disgyblion le yn y lleoliad arbenigol agosaf a mwyaf priodol. Os cânt eu lleoli mewn Dosbarth Cynnal Dysgu, mae'n bosibl y bydd angen i ddisgyblion deithio y tu allan i'r dalgylch, er y bydd yr Adran Mynediad a Chynhwysiant yn ceisio gosod disgyblion yn y Dosbarth Cynnal Dysgu priodol agosaf at eu cyfeiriad cartref.

Mae Llywodraeth Cymru a'r Cyngor wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Caiff y rhain eu mynegi drwy saith nod craidd, hynny yw, bod pob plentyn a pherson ifanc:

1. Yn cael y dechrau gorau mewn bywyd;
2. Yn cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu;

3. Yn mwynhau'r iechyd gorau posibl, yn ddiogel rhag cael eu cam-drin, eu herlid a'u cam-fanteisio arnyn nhw;
4. Yn cael mynediad i weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol;
5. Yn cael dweud eu dweud, eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod;
6. Â chartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol;
7. Osgoi bod o dan anfantais oherwydd tlodi.

Rydyn ni o'r farn bod y cynnig yma o fudd i blant yn y cymunedau dan sylw yn unol â'r saith nod craidd sydd wedi'u nodi uchod.

## Beth fydd effaith debygol y cynnig ar staff y Dosbarth Cynnal Dysgu?

Caiff pob aelod o staff Dosbarthiadau Cynnal Dysgu eu penodi gan yr Awdurdod Lleol, ac maen nhw wedi'u contractio i weithio mewn unrhyw Ddosbarth Cynnal Dysgu priodol. Mae hyn yn amodol ar anghenion yr Awdurdod Lleol a sgiliau'r staff dan sylw. Caiff unrhyw adnoddau hanfodol ychwanegol eu darparu er mwyn cefnogi'r dosbarthiadau sydd wedi'u hadleoli.

Bydd y cynigion yn gwella cyfleoedd i'r rhai sy'n dymuno gweithio o fewn darpariaethau'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu trwy greu 4 swyddi athro/athrawes Dosbarth Cynnal Dysgu a 5 swydd cynorthwy-ydd cymorth dysgu.

## Beth fydd effaith debygol y cynnig ar y gymuned leol?

Fydd y cynnig ddim yn cael unrhyw effaith sylweddol ar gymunedau lleol, a hynny am y rhesymau a ganlyn:

- *Adleoli arfaethedig:* Mae digon o le yn yr ysgol rydyn ni'n bwriadu symud y ddarpariaeth iddi er mwyn rhoi cyfleoedd gwell i ddisgyblion fanteisio ar ddarpariaeth addysgol o ansawdd uchel ar draws cyfnodau allweddol mewn adeiladau modern a hygyrch.
- *Darpariaethau newydd arfaethedig:* Bydd modd i ragor o blant lleol fanteisio ar ddosbarthiadau arbennig o fewn eu cymuned leol, a bydd y dosbarthiadau newydd yma yn llenwi'r bwlch sydd wedi'i nodi yn y ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes. Bydd llai o alw am gludo plant allan o'u hardaloedd lleol er mwyn iddyn nhw gael eu haddysgu, a dylai hyn gael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd. Bydd ysgolion yn gwneud defnydd effeithiol o unrhyw leoedd dros ben yn yr ysgol, ac yn creu adnodd a fydd o fudd i blant a phobl ifainc sy'n agored i niwed, yn ogystal â'u rhieni/cynhalwyr. Bydd y gwaith arfaethedig o sefydlu'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yma yn gwella gallu cyffredinol yr ysgol i ddiwallu amrywiaeth o anghenion, a hynny am fod rhagor o arbenigedd o ran ADY yn yr ysgol.

Mae Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg a Chydraddoldeb wedi'u cwblhau ar gyfer y cynigion yma ac maen nhw ynghlwm (atodiadau 2 a 3). Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi'i gwblhau a'i gynnwys fel atodiad 4.

Caiff y rhain eu diweddaru ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cynnwys y materion perthnasol hynny sydd wedi codi ac sydd angen cael eu hystyried. Caiff yr asesiadau eu cyflwyno i Gabinet y Cyngor yn yr adroddiad sy'n nodi'r adborth sydd wedi dod i law mewn perthynas â'r cynigion yma.

## Beth yw'r effaith debygol ar ansawdd a safon yr addysg?

Mae'r dosbarthiadau cynnal dysgu yn cael eu rheoli ar y cyd gan bennaeth yr ysgol lle mae'r dosbarth cynnal dysgu a staff canolog y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant. Mae rolau a chyfrifoldebau'r uchod wedi'u diffinio'n glir yng Nghytundeb Dosbarth Cymorth Dysgu Ysgol yr ALl. Mae hyn yn cynnwys materion yn ymwneud â'r cwricwlwm ac ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mae proses sicrhau ansawdd gadarn yn ei lle i sicrhau bod yr ysgol a staff y dosbarth cynnal dysgu yn cael eu cefnogi'n dda a bod darpariaeth y dosbarth yn bodloni'r holl ofynion statudol angenrheidiol.

Barn yr ALl yw y bydd y cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar bob un o bum maes arolygu Estyn, fel sydd wedi'i nodi isod:

**Safonau**
Bydd y dosbarth cynnal dysgu wedi'u lleoli mewn amgylcheddau dysgu hyblyg modern a bydd ganddyn nhw fynediad i fannau awyr agored gwell i gefnogi'r ystod lawn o weithgareddau cwricwlwm. Yn ogystal, bydd cynyddu nifer y dosbarthiadau cynnal dysgu yn sicrhau bod nifer fwy o ddisgyblion ag ADY sylweddol a chymhleth yn gallu manteisio ar ddarpariaeth dysgu ychwanegol sy’n gwella eu cynnydd mewn perthynas â’u targedau unigol a’u mannau cychwyn. Caiff hyn ei fonitro trwy broses sicrhau ansawdd ar gyfer dosbarthiadau cynnal dysgu mewn cydweithrediad â'r pennaeth.

**Lles ac agweddau tuag at ddysgu**
Bydd mynediad at ddarpariaethau dysgu arbenigol lle mae modd diwallu anghenion unigol disgyblion ag ADY cymhleth trwy ddarpariaeth dysgu ychwanegol unigol mewn amgylchedd sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion a staff. Bydd cynyddu’r ddarpariaeth arbenigol a gynhelir gan ysgolion prif ffrwd yn galluogi disgyblion ag ADY i chwarae rhan lawn ym mywyd a gwaith yr ysgol ochr yn ochr â’u cyfoedion prif ffrwd.

Bydd darpariaeth dosbarth cynnal dysgu a gynlluniwyd i ddarparu dysgu ychwanegol arbenigol yn sicrhau rhagor o gyfranogiad ac ymgysylltiad gan ddisgyblion yn eu dysgu ac yn hyrwyddo cydnerthedd. Byddwn ni'n cyflawni hyn trwy gynllunio manwl pwrpasol yn unol ag anghenion canfyddedig disgyblion.

**Addysgu a phrofiad dysgu**
Bydd y dosbarthiadau cynnal dysgu yn darparu cwricwlwm cytbwys ar bob cam yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru – 2022. Bydd amgylchedd dysgu yn yr 21ain ganrif hefyd roi rhagor o hyblygrwydd i ddisgyblion ac felly rhagor o ddewis a chyfleoedd yn eu

profiad dysgu.  Bydd y dosbarthiadau cynnal dysgu yn darparu ystod o strategaethau ac ymyriadau i ddiwallu anghenion disgyblion unigol ag anawsterau sylweddol gyda mynediad i ystod eang o adnoddau amlsynhwyraidd a digidol i gyfoethogi eu dysgu. Bydd asesu a chynllunio pwrpasol i ddiwallu anghenion unigol, er enghraifft trwy Gynlluniau Datblygu Unigol (CDU) a gynhelir gan yr ALl, yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd o fannau cychwyn unigol. Bydd sefydlu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu ychwanegol yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer rhannu arbenigedd a phrofiad mewn ADY rhwng staff y dosbarth a staff prif ffrwd mewn cyfran fwy o ysgolion prif ffrwd yn RhCT, i gefnogi arfer effeithiol wrth ddiwallu anghenion disgyblion ag ADY ar draws y gymuned ysgol ehangach a gwella cyfleoedd ar gyfer cynhwysiant effeithiol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**
Bydd dosbarthiadau cynnal dysgu yn canolbwyntio'n gryf ar gefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion a rhoi cyfleoedd i gydweithio â chyfoedion prif ffrwd yn eu hysgolion prif ffrwd lle lleolir eu dosbarth.  Bydd hyn yn cynnwys cyfleoedd i gael mynediad i weithgareddau yn eu cymuned leol. Bydd disgyblion yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau allgyrsiol i annog ffyrdd iach o fyw a meithrin disgyblion.

**Arweinyddiaeth a Rheolaeth**
Ymgymerir ag arwain a rheoli'r dosbarthiadau cynnal dysgu ar y cyd gan Bennaeth yr ysgol sy'n cynnal y dosbarth a Chydlynwyr y Gwasanaeth Cynnal Dysgu yn y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant i sicrhau y cyflawnir disgwyliadau uchel ar gyfer disgyblion. Ategir hyn gan broses sicrhau ansawdd gynhwysfawr a chytundeb dosbarthiadau cynnal dysgu rhwng yr ALl / ysgol sy'n manylu ar swyddogaethau a chyfrifoldebau'r ALl, yr ysgolion cynnal a staff y dosbarthiadau cynnal dysgu.

## Beth yw goblygiadau ariannol y cynnig?

Os caiff y cynnig yma gan yr Awdurdod Lleol ei gymeradwyo, caiff hynny effaith gadarnhaol ar ddisgyblion sydd ag ADY ledled Rhondda Cynon Taf, a hynny gan y bydd cyllid ychwanegol yn cael ei roi tuag at sefydlu dosbarthiadau sy'n mynd i'r afael â meysydd lle mae angen wedi'i nodi. Bydd y cynnig yn sicrhau bod y Cyngor Bwrdeistref Sirol yn parhau i ymrwymo i ddiwallu anghenion disgyblion sydd ag ADY yn effeithiol drwy ddiogelu'r ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes at y dyfodol o ran ansawdd a digonolrwydd.

Caiff digon o arian ei glustnodi ar gyfer yr ysgolion er mwyn sefydlu'r ddarpariaeth arfaethedig. Mae disgwyl y bydd y gost i'r awdurdod lleol tua £474,000 os bydd y cynigion yn cael eu rhoi ar waith.  Bydd yr arian yma yn talu am gostau staffio a chostau yn ôl y pen. Dydy'r cynnig ddim yn cynnwys trosglwyddo na chael gwared ar unrhyw dir.

**Cludiant o'r cartref i'r ysgol (Cludo Disgyblion)**

Bydd creu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu newydd yn arwain at gost cludo yn unol â Pholisi Teithio gan Ddisgyblion y Cyngor. Serch hynny, mae'r cynnydd yma mewn cost yn cael ei ystyried yn anghenraid er mwyn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwyaf agored i niwed RhCT. Does dim modd rhagweld costau ar hyn o bryd gan fod lleoliadau wedi'u dylanwadu gan nifer y disgyblion, fodd bynnag o ystyried y bydd

cynnydd net yn nifer y darpariaethau Dosbarthiadau Cynnal Dysgu, bydd costau ychwanegol.

Mae'n ddyletswydd statudol ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion i'w hysgolion addas agosaf os ydyn nhw'n byw pellter sydd y tu hwnt i 'bellter cerdded' o'r ysgol honno. Mae’r term ‘ysgol addas’ yn cyfeirio at ddalgylch ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, ysgol cyfrwng Cymraeg a Saesneg, neu ysgol prif ffrwd wirfoddol gymorthedig cynradd, uwchradd neu ysgol/dosbarth arbennig fel y bo’n briodol. Mae'r gyfraith yn diffinio 'pellter cerdded' yn ddwy filltir i ddisgyblion o oedran addysg gynradd gorfodol a thair milltir i bob disgybl o oedran addysg uwchradd gorfodol.

Mae CBSRhCT wedi defnyddio'r disgresiwn sydd wedi'i roi iddo gan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, a chynnig darpariaeth fwy hael i ddisgyblion fel sydd wedi'i nodi isod:

- Mae'r maen prawf ar gyfer pellter cerdded i ddisgyblion sy'n derbyn addysg gynradd orfodol yn eu hysgol addas agosaf wedi cael ei osod ar 1½ milltir, yn hytrach na 2 filltir fel sy'n ofynnol gan y Mesur.
- Mae cludiant am ddim i'w hysgol addas agosaf, lle mae lleoedd ar gael, yn cael ei ddarparu i ddisgyblion sy'n bodloni'r maen prawf 1½ milltir o ddechrau'r Cyfnod Sylfaen (dechrau'r tymor ysgol ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed), yn hytrach nag o ddechrau addysg orfodol (dechrau'r tymor ysgol ar ôl eu pen-blwydd yn 5 oed) fel sy'n ofynnol gan y Mesur.
- Mae'r maen prawf ar gyfer pellter cerdded i ddisgyblion sy'n cael addysg uwchradd orfodol yn eu hysgol addas agosaf wedi cael ei osod ar 3 filltir (yn weithredol o fis Medi 2025) fel sy'n ofynnol gan y Mesur.
- Mae’r term ‘ysgol addas’ yn cyfeirio at ddalgylch ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, ysgol cyfrwng Cymraeg a Saesneg, ysgol prif ffrwd wirfoddol gymorthedig (yr Eglwysi) neu ysgol/dosbarth arbennig fel y bo’n briodol.

Mae rhagor o wybodaeth mewn perthynas â darpariaeth Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol CBSRhCT i ddisgyblion ag ADY ar gael i'w darllen a'i lawrlwytho o wefan CBSRhCT:

https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/ParkingRoadsandTravel/Travel/SchoolandCollegeTransport/SchoolandCollegeTransport.aspx

**ATODIAD 1**

## Ffurflen ar gyfer Ymateb i'r Ymgynghoriad

Er mwyn helpu'r Cyngor i ddod i benderfyniad, byddai'n ddefnyddiol iawn pe baech chi'n ateb y cwestiynau canlynol. Anfonwch eich holiadur wedi'i gwblhau at:

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant, Canolfan Menter y Cymoedd, Abercynon, CF45 4SN neu mae modd eu hanfon drwy e-bost i CynaMyn@rctcbc.gov.uk

Mae'r arolwg yma yn ddienw. Peidiwch â darparu unrhyw wybodaeth bersonol yn y blychau testun rhydd.

**Cynnig 1: Sefydlu Darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu**

Y cynnig yw bod y dosbarthiadau canlynol yn cael eu **sefydlu** o fis Medi 2025:

- Un Dosbarth Cynnal Dysgu (Ymyrraeth) y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sydd ag anghenion sylweddol yn Ysgol Gynradd Cwmaman.

1. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig? Ydw Nac ydw Ddim yn siŵr

Nodwch y rhesymau dros eich dewis

______________________________

______________________________

______________________________

**Cynnig 2: Sefydlu Darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu**

Y cynnig yw bod y dosbarthiadau canlynol yn cael eu **sefydlu** o fis Medi 2025:

- Un Dosbarth Cynnal Dysgu (Asesu ac Ymyrraeth) y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sydd ag anghenion sylweddol yn Ysgol Gynradd Penyrenglyn.

2. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig? Ydw Nac ydw Ddim yn siŵr

Nodwch y rhesymau dros eich dewis

______________________________

______________________________

______________________________

**Cynnig 3: Sefydlu Darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu**

Y cynnig yw bod y dosbarthiadau canlynol yn cael eu **sefydlu** o fis Medi 2025:

- Un Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2 ag Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol / Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Gynradd Hirwaun

3. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig? Ydw Nac ydw Ddim yn siŵr

Nodwch y rhesymau dros eich dewis

___

___

___

**Cynnig 4: Sefydlu Darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu**

Y cynnig yw bod y dosbarthiadau canlynol yn cael eu **sefydlu** o fis Medi 2025:

- Un Dosbarth Cynnal Dysgu Anawsterau Dysgu Cymhleth ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 7 i 11 yn Ysgol Gyfun Aberpennar.

4. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig? Ydw Nac ydw Ddim yn siŵr

Nodwch y rhesymau dros eich dewis

___

___

___

**Cynnig 5: Adleoli'r Dosbarth Cynnal Dysgu canlynol**

Rydyn ni'n cynnig adleoli'r dosbarth canlynol o fis Medi 2025 ymlaen:

- Symud y Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 3 i 6 ag Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol / Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Gynradd Pen-y-waun i Ysgol Gynradd Hirwaun, gan greu darpariaeth Cyfnod Cynradd.

5. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig?

Ydw Nac ydw Ddim yn siŵr

Nodwch y rhesymau dros eich dewis:

___

___

___

___

6. Nodwch unrhyw opsiynau eraill, neu sylwadau neu faterion eraill yr hoffech chi i ni'u hystyried (mae croeso ichi gynnwys dalennau ychwanegol os oes angen)

___

___

___

7. O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae gyda'r Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i ystyried sut mae ei benderfyniadau yn effeithio ar bobl oherwydd efallai bod nodweddion penodol gyda nhw. Sut byddai cynigion y Cyngor yn effeithio arnoch chi o safbwynt y canlynol?:

a. Rhyw
b. Oedran
c. Ethnigrwydd
d. Anabledd
e. Rhywioldeb
f. Crefydd neu gred
g. Hunaniaeth rhywedd

h. Statws perthynas
i. Beichiogrwydd
j. Iaith o ddewis

______________________________________________________________________________

8. O ran cynnig y Cyngor, a'r effaith y gallai ei chael, rhowch wybod i ni: Os ydych chi o'r farn y gallen nhw effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a'i hybu (cadarnhaol neu negyddol), ac a fyddai'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn unrhyw ffordd?

9. Nodwch sut y byddai modd cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?

Nodwch pwy ydych chi (e.e. rhiant disgybl mewn ysgol sy'n cael ei henwi, llywodraethwr ar ysgol sy'n cael ei henwi ac ati)

**Diolch am roi o'ch amser i lenwi'r holiadur yma.**
**Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw 5pm ar 15 Tachwedd 2024.**

Enw (dewisol): Rhowch fanylion cyswllt os ydych chi'n dymuno cael gwybod am gyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghoriad

---

Diolch am roi o'ch amser i gwblhau'r holiadur yma. **Anfonwch holiaduron wedi'u llenwi i'r cyfeiriad uchod erbyn 5pm ar 15 Tachwedd 2024, fan bellaf.** Bwriad y Cyngor yw sicrhau bod eich gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw'n ddiogel a'i fod yn rhoi gwybod i chi sut mae'n defnyddio'ch gwybodaeth. I ddysgu am sut mae'ch preifatrwydd wedi'i ddiogelu a sut a pham rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol i ddarparu gwasanaethau i chi, ewch i'n hysbysiadau preifatrwydd ar gyfer ymgynghoriadau yma: www.rctcbc.gov.uk/hysbysiadpreifatrwyddgwasanaeth a thudalennau **diogelu data'r** Cyngor yma: www.rctcbc.gov.uk/diogeludata.

**ATODIAD 2**

**FFURFLEN ASESU EFFAITH AR Y GYMRAEG**

Diben y ffurflen Asesu Effaith ar y Gymraeg yw galluogi Cyngor Rhondda Cynon Taf i ystyried egwyddorion a gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 er mwyn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

| | |
|---|---|
| **Cam 1 – Casglu Gwybodaeth**<br><br>**NODER:** Wrth i chi gwblhau'r asesiad yma, bydd gofyn i chi gyflwyno **tystiolaeth i ategu'ch sylwadau**. Gweler Canllawiau Asesu Effaith ar y Gymraeg i gael rhagor o wybodaeth am ffynonellau data. | |
| **Enw'r Cynnig:** | **YMGYNGHORIAD AR Y CYNIGION I WELLA DARPARIAETH DOSBARTHIADAU CYNNAL DYSGU PRIF FFRWD – ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL YN RHONDDA CYNON TAF** |
| **Adran** | Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant |
| **Cyfarwyddwr Gwasanaeth** | Gaynor Davies |
| **Swyddog sy'n llenwi'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg** | Lisa Carter |
| **E-bost** | Lisa.c.carter@rctcbc.gov.uk |

| | |
|---|---|
| | |
| **Ffôn** | 01443 744344 |
| **Disgrifiad Cryno** | Gwella'r ddarpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu bresennol i fodloni'r galw am leoliadau arbenigol. Caiff hyn ei gyflawni drwy'r dulliau canlynol:<br>• Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu (Ymyrraeth) y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol Ysgol Gynradd Cwmaman. Bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith o fis Medi 2025.<br>• Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu (Ymyrraeth) y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol Ysgol Gynradd Penyrenglyn. Bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith o fis Medi 2025.<br>• Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion ym Mlynyddoedd 7 i 11 ag Anghenion Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gyfun Aberpennar o fis Medi 2025.<br>• Symud y Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion blynyddoedd 3 i 6 ag Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Gynradd Pen-y-waun i Ysgol Gynradd Hirwaun o fis Medi 2025.<br>• Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2 ag Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Gynradd Hirwaun i sefydlu darpariaeth pob oed yn y Cyfnod Cynradd o fis Medi 2025. |
| **Dyddiad** | 4 Medi 2024 |
| **Nodwch ar bwy mae'r cynnig yma'n effeithio: (Defnyddwyr gwasanaethau, gweithwyr, cymuned ehangach)** | Disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n gofyn am ddarpariaeth arbenigol, eu rhieni / gwarcheidwaid a'r gymuned anghenion dysgu ychwanegol ehangach. |

| | |
|---|---|
| **Beth yw nodau'r polisi, a sut mae'r rhain yn berthnasol i'r Gymraeg?** | Mae Adran 315 o Ddeddf Addysg 1996 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gynnal adolygiadau rheolaidd o'r trefniadau sy'n cefnogi disgyblion sydd ag AAA/ADY, yn ogystal â sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddigonol ac yn diwallu anghenion y gymuned. Mae parhau i ganolbwyntio ar wella safonau mewn ysgolion yn ogystal â gwella deilliannau plant a phobl ifainc yn flaenoriaeth i'r Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant.<br><br>Bydd y cynigion yma'n mynd i'r afael â phroblemau o ran capasiti dros ben a diffyg capasiti mewn darpariaethau allweddol, gan sicrhau bod modd i'r adnoddau i gael eu hatgyfeirio er mwyn gwella'r capasiti ar gyfer cynnwys disgyblion yn y brif ffrwd, yn ogystal â darparu ymyriad cynnar a dulliau gweithredu ataliol. Yn ogystal â hynny, bydd y cynigion yn mynd i'r afael â'r anghydbwysedd rhwng nifer y darpariaethau addysg gynradd ac addysg uwchradd, a phroblemau o ran pontio a hygyrchedd. Mae'r cynigion hefyd yn ceisio mynd i'r afael â'r angen i sefydlu darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu arbenigol ychwanegol yn y Blynyddoedd Cynnar i fodloni'r cynnydd yn y galw am leoliadau ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol.<br><br>Gan mai bwriad y newidiadau i Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu arfaethedig yw gwella darpariaeth cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Dysgu Cymhleth, Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol/Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, a disgyblion Blynyddoedd Cynnar ag ADY sylweddol, fydd y cynnig yma ddim yn effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg. Nodir bod Rhondda Cynon Taf wedi agor 3 darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg newydd yn ddiweddar ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol (Medi 24). Rydyn ni'n cadw llygad barcud ar y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.<br><br>Yn unol â'r cynigion, bydd swyddi Athrawon a Chynorthwywyr Dosbarth Cynnal Dysgu ychwanegol yn cael eu sefydlu. Mae'n ofynnol i holl staff newydd y Cyngor ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg Lefel 1. Bydd y staff hynny sy'n llwyddo i gyflawni Lefel 1 yn cael eu hannog i wella eu sgiliau trwy ddilyn lefelau 2 a 3 . |

| | |
|---|---|
| | |
| **Pwy fydd yn elwa? / Oes modd i'r polisi effeithio ar grwpiau Cymraeg?**<br><br>**Os felly, rhestrwch nhw yma.** | • Disgyblion cyfrwng Saesneg yn y Cyfnod Cynradd ag Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol/Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig<br>• Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar sy'n iau na'r oedran ysgol statudol sydd ag anghenion sylweddol.<br>• Disgyblion cyfrwng Saesneg Blwyddyn 7-11 (Cyfnod Allweddol 3/4 yn flaenorol) ag Anawsterau Dysgu Cymhleth.<br>• Disgyblion yn yr ysgol lle mae'r dosbarth wedi'i sefydlu.<br>• Rhieni/gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion sydd â Dosbarthiadau Cynnal Dysgu a'r rheini sydd â phlant/pobl ifainc ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol.<br>• Staff mewn ysgolion sydd â Dosbarthiadau Cynnal Dysgu.<br>• Dyma'r ysgolion sydd â Dosbarthiadau Cynnal Dysgu: Ysgol Gynradd Cwmaman, Ysgol Gynradd Penyrenglyn, Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Gynradd Hirwaun. |
| **Proffil ieithyddol cyfredol yr ardal(oedd) ddaearyddol dan sylw** | Mae ffigurau Cyfrifiad 2021 ynghylch y Gymraeg yn dangos bod canran siaradwyr Cymraeg ledled Cymru wedi gostwng i 17.8%. Serch hynny, gwelodd Rhondda Cynon Taf gynnydd bychan gyda chanran poblogaeth y Fwrdeistref Sirol sy’n gallu siarad Cymraeg yn codi o 12.3% i 12.4%. Mae data'n dangos bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf wedi cynyddu o 27,779 i 28,556, sef cynnydd o 2.8%. Yn wir, Rhondda Cynon Taf oedd un o bedwar Awdurdod Lleol yng Nghymru yn unig i weld cynnydd yng nghanran ei siaradwyr Cymraeg. Y lleill oedd Caerdydd, Bro Morgannwg a Merthyr Tudful. Mae pob un o’r awdurdodau lleol yma'n Fwrdeistrefi sirol cyfagos. Efallai bod hynny'n dangos bod ein rhanbarth ni'n gweld rhai tueddiadau cadarnhaol o ran cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, ac y gallai'r cynnydd yma arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Wrth i ddata pellach, manylach, o'r Cyfrifiad ar gyfer Rhondda Cynon Taf ddod i'r fei, (e.e. data Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is), bydd angen i ni ystyried pa effaith y gallai ei chael ar y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu.<br>Mae'r tabl isod yn dangos sgiliau Cymraeg trigolion sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac mae'r rhain yn deillio o Gyfrifiad 2021. |

**Tabl 1: Sgiliau Cymraeg Trigolion – (%)**

| | Cyfanswm y Trigolion sy'n Byw ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | Cymru Gyfan |
|---|---|---|
| Yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg | 10.1% | 14.8% |
| Yn gallu siarad a darllen Cymraeg ond yn methu â'i hysgrifennu | 0.7% | 1.2% |
| Yn gallu siarad Cymraeg ond yn methu â'i darllen na'i hysgrifennu | 1.4% | 2.4% |
| Yn gallu darllen ond methu siarad nac ysgrifennu Cymraeg | 1.6% | 1.4% |
| Yn gallu ysgrifennu ond methu siarad na darllen Cymraeg | 0.2% | 0.2% |
| Yn gallu darllen ac ysgrifennu ond methu siarad Cymraeg | 0.5% | 0.6% |
| Yn gallu deall Cymraeg llafar yn unig | 4.0% | 5.5% |
| Cyfuniad Arall o Sgiliau | 0.1% | 0.2% |
| Dim sgiliau | 81.3% | 77.1% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Cyfanswm** | **100%** | **100%** |

Mae'r data'n dangos bod lefel sgiliau Cymraeg trigolion Rhondda Cynon Taf ar y cyfan yn is na lefel sgiliau Cymraeg Cymru gyfan.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cymorth wedi'i rhoi i hyrwyddo a chynyddu defnydd disgyblion o'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ac mewn cyd-destunau cymdeithasol. Cafodd y gwaith yma ei wneud trwy Siarter Iaith Cyngor Gwynedd, ac amryw o brosiectau eraill, ar y cyd â Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De a'r Urdd. Byddai modd i hynny gyfrannu at nod uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 a chyfrannu at y CSGA.

**Data neu ymchwil perthnasol arall**

Ar hyn o bryd mae gan Rondda Cynon Taf 2 Ddosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg ar gyfer y Cyfnod Cynradd yn YGG Awel Taf. Mae yno le i 18 o ddisgyblion sy'n dangos anghenion sylweddol. Mae hefyd gan Rondda Cynon Taf Ddosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg ar gyfer Cyfnod Allweddol 3/4 yn Ysgol Garth Olwg. Mae yno le i 14 o ddisgyblion sy'n dangos anghenion sylweddol. Mae sefydlu'r darpariaethau yma wedi creu budd sylweddol i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg ag ADY sylweddol ledled Rhondda Cynon Taf ac mae wedi sicrhau gwell cydraddoldeb a mynediad i ddarpariaeth arbenigol. Mae parhau i ganolbwyntio ar wella safonau mewn ysgolion yn ogystal â gwella deilliannau plant a phobl ifainc yn flaenoriaeth i'r Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant. Yng ngoleuni Agenda Trawsnewid ADY Llywodraeth Cymru a gweledigaeth y Cyngor i gynyddu nifer y dysgwyr cyfrwng Cymraeg yn ei ysgolion trwy ymateb yn rhagweithiol i strategaethau cenedlaethol a lleol, megis Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru: Cymraeg 2050, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Rhondda Cynon Taf a chynllun Ysgolion yr 21ain ganrif cyfredol i gynyddu a gwella darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg RhCT.


Cafodd profforma ei ddosbarthu i holl athrawon a staff cymorth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn Rhondda Cynon Taf. Roedd gofyn iddyn nhw nodi eu sgiliau o ran y Gymraeg. Wrth gwblhau'r

profforma, gofynnwyd i athrawon a staff cymorth y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu ddefnyddio Canllaw Sgiliau Iaith Gymraeg Rhondda Cynon Taf[1] cyn nodi pa lefel ydyn nhw. Mae'r data yn gywir ar 20/06/2023. Fodd bynnag, rhaid cofio bod y data yma wedi'i gasglu cyn penodi 4 Cynorthwy-ydd Cynnal Dysgu a 3 Athro Dosbarth Cynnal Dysgu sy'n gwbl rugl yn y Gymraeg yn haf 2024.

Ffigur 1 – Data athrawon a staff cymorth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu Rhondda Cynon Taf.

| Sgiliau o ran y Gymraeg | Nifer yr aelodau o staff |
|---|---|
| Lefel 1 | 96 |
| Lefel 2 | 18 |
| Level 3 | 4 |
| Lefel 4 | 5 |
| Lefel 5 | 1 |
| **CYFANSWM** | **124** |

[1] www.rctcbc.gov.uk/sgiliaucymraeg




Ffigur 2 – Sgiliau o ran y Gymraeg athrawon a chynorthwywyr addysgu mewn Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn Rhondda Cynon Taf

- O'r 50 o'r athrawon yn y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu a ymatebodd, mae gyda 60% ohonyn nhw sgiliau Lefel 1 o ran y Gymraeg ar hyn o bryd. Nododd 89% o’r ymatebion fod gyda 89% o'r cynorthwywyr addysgu sgiliau Lefel 1 o ran y Gymraeg ar hyn o bryd.
- Nododd 30% o'r athrawon yn y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu fod gyda nhw sgiliau Lefel 2 o ran y Gymraeg. Nododd 4% o'r cynorthwywyr addysgu yr un peth.
- Mae gan 2% o'r athrawon sgiliau Lefel 3 o ran y Gymraeg ar hyn o bryd, ac mae 3% o'r cynorthwywyr addysgu yn y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn nodi'r un peth.
- Mae 6% o'r athrawon yn nodi bod ganddyn nhw sgiliau Lefel 4 o ran y Gymraeg, ac mae 3% o'r cynorthwywyr addysgu yn nodi'r un peth.
- Does dim un athro neu athrawes â sgiliau Lefel 5 o ran y Gymraeg ar hyn o bryd er bod 1 cynorthwy-ydd addysgu wedi nodi ei fod â sgiliau Lefel 5.

| **Cam 2 – Asesu Effaith**<br><br>**A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol / negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.** | **Pa dystiolaeth sydd gyda chi i ategu'r farn hon?** | **Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
| **Niferoedd a / neu ganrannau'r siaradwyr Cymraeg**<br>e.e. Cyfleoedd Addysg / Astudio Cyfrwng Cymraeg. Cysylltiadau â Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru / Strategaeth y Gymraeg Pum Mlynedd Cyngor Rhondda Cynon Taf | **Cadarnhaol** | Mae'r Cyngor yn cynnig cyfleoedd i'w holl staff mewnol ym mhob gwasanaeth gael hyfforddiant am ddim i wella eu sgiliau Cymraeg. Mae Carfan Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor yn gweithio i ddatblygu cymorth technolegol i siaradwyr Cymraeg ac i ddysgwyr fel bod modd i'r Cyngor ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. | Mae'n ofynnol i holl staff newydd y Cyngor ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg Lefel 1. Bydd y staff hynny sy'n llwyddo i gyflawni Lefel 1 yn cael eu hannog i wella eu sgiliau trwy ddilyn lefelau 2 a 3 . | Mae'n ofynnol i holl staff newydd y Cyngor ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg Lefel 1. Bydd y staff hynny sy'n llwyddo i gyflawni Lefel 1 yn cael eu hannog i wella eu sgiliau trwy ddilyn lefelau 2 a 3 . |
| **Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg**<br>e.e. statws, defnyddio Gwasanaethau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg yn rhan o fywyd beunyddiol | **Cadarnhaol**<br><br>+ | 1. Mae'r Cyngor yn cynnig cyfleoedd i'w holl staff mewnol ym mhob gwasanaeth gael hyfforddiant am ddim i wella eu | 1. Mae'n ofynnol i holl staff newydd y Cyngor ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg Lefel 1. Bydd y staff hynny sy'n llwyddo i | 1. Mae'n ofynnol i holl staff newydd y Cyngor ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg Lefel 1. Bydd y staff hynny sy'n llwyddo i |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| yn y gwaith ac yn y gymuned<br><br>Mynd ati'n weithredol i annog a hyrwyddo defnydd o'n gwasanaethau Cymraeg i weld cynnydd yn y galw dros amser | **Niwtral** | sgiliau Cymraeg. Mae Carfan Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor yn gweithio i ddatblygu cymorth technolegol i siaradwyr Cymraeg ac i ddysgwyr fel bod modd i'r Cyngor ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.<br>2. Bydd y Cyngor yn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi strategaeth bum mlynedd i hwyluso a hyrwyddo'r Gymraeg. Cafodd yr ail strategaeth bum mlynedd ei chymeradwyo yn 2022. Mae'r strategaeth honno ar gyfer y blynyddoedd rhwng 2022 a 2027 ac mae'n amlinellu nifer o feysydd polisi allweddol er mwyn cynnal nifer y siaradwyr Cymraeg | gyflawni Lefel 1 yn cael eu hannog i wella eu sgiliau trwy ddilyn lefelau 2 a 3.<br><br>2. Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn casglu gwybodaeth ynghyd am allu'r ymatebwyr i siarad Cymraeg gan gynnwys cwestiwn ar lefel eu sgiliau Cymraeg. Nododd yr Arolwg Poblogaeth Blynyddol diweddaraf, ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2022, fod 24.1% o ymatebwyr sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn dweud eu bod nhw'n gallu siarad Cymraeg, o’i gymharu â 33.4% ar gyfer Cymru gyfan.<br><br>3. O ran y cynnig i wella'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu, fydd dim newid i | gyflawni Lefel 1 yn cael eu hannog i wella eu sgiliau trwy ddilyn lefelau 2 a 3.<br><br>2. Defnyddio gwefan y Cyngor a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol corfforaethol i sicrhau bod rhieni/gwarcheidwaid, a’r gymuned ehangach yn gwybod ble a phryd mae dosbarthiadau dysgu cyfrwng Cymraeg i oedolion yn cael eu cynnal, ynghyd â chyfleoedd eraill i ymgysylltu â’r gymuned drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>3. O ran y cynnig i wella'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu, fydd dim newid i ddosbarthiadau ADY cyfrwng Cymraeg. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | yn ystod ei hoes, a'i gynyddu. Wrth ddatblygu'r cynnig yma, rydyn ni wedi cymryd Strategaeth Hybu'r Gymraeg Rhondda Cynon Taf a dogfennau eraill i ystyriaeth er mwyn annog a hwyluso twf tymor hir mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac addysgu'r Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi sicrhau bod y Cynllun Strategol wedi'i alinio â'r Strategaeth, a bydd yn parhau i wneud hynny.<br><br>3. O ran y cynnig i wella'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu, fydd dim newid i ddosbarthiadau ADY cyfrwng Cymraeg. | ddosbarthiadau ADY cyfrwng Cymraeg. | |

| **Cam 2 – Asesu Effaith**<br><br>**A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol / negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.** | **Pa dystiolaeth sydd gyda chi i ategu'r farn hon?** | **Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
| **Cydymffurfio â Safonau Cymraeg Statudol y Cyngor**<br>e.e.<br>cynyddu neu leihau gallu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Ystyried hawliau siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r Cyngor ac i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith. | **Cadarnhaol** | Bydd pob ymgynghoriad statudol perthnasol a gofynnol sy'n gysylltiedig â'r cynnig yma'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys y profforma ymgynghori lle gwahoddir rhanddeiliaid i roi eu hadborth i'r newidiadau arfaethedig. Bydd hyn ar gael ar-lein yn ddwyieithog. | Bydd yr ymgynghoriad statudol perthnasol a gofynnol yn cael ei gynnal yn ddwyieithog a bydd gohebiaeth gyhoeddus mewn perthynas â'r cynnig yn cael ei pharatoi'n ddwyieithog.<br><br>Yn ystod y broses ymgynghori ar symud Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn 2023, | Bydd yr ymgynghoriad statudol perthnasol a gofynnol yn cael ei gynnal yn ddwyieithog a bydd gohebiaeth gyhoeddus mewn perthynas â'r cynnig yn cael ei pharatoi'n ddwyieithog.<br><br>Bydd y profforma ymgynghori lle gwahoddir rhanddeiliaid i roi eu hadborth i'r newidiadau arfaethedig ar gael ar-lein yn ddwyieithog. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | derbyniwyd rhai ymatebion i'r profforma ymgynghori yn ddwyieithog. | Cyn achlysuron ymgynghori, byddwn ni'n ymgynghori ag ysgolion ynghylch a ddylai'r achlysuron gael eu cynnal yn ddwyieithog. |
| **Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.** | **Cadarnhaol** | Bydd pob ymgynghoriad statudol perthnasol a gofynnol sy'n gysylltiedig â'r cynnig yma'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys y profforma ymgynghori lle gwahoddir rhanddeiliaid i roi eu hadborth i'r newidiadau arfaethedig. Bydd hyn ar gael ar-lein yn ddwyieithog. | Bydd yr ymgynghoriad statudol perthnasol a gofynnol yn cael ei gynnal yn ddwyieithog a bydd gohebiaeth gyhoeddus mewn perthynas â'r cynnig yn cael ei pharatoi'n ddwyieithog.<br><br>Yn ystod proses ymgynghori ar symud Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn 2023, derbyniwyd rhai ymatebion i'r profforma ymgynghori yn ddwyieithog. | Bydd yr ymgynghoriad statudol perthnasol a gofynnol yn cael ei gynnal yn ddwyieithog a bydd gohebiaeth gyhoeddus mewn perthynas â'r cynnig yn cael ei pharatoi'n ddwyieithog.<br><br>Bydd y profforma ymgynghori lle gwahoddir rhanddeiliaid i roi eu hadborth i'r newidiadau arfaethedig ar gael ar-lein yn ddwyieithog.<br><br>Cyn achlysuron ymgynghori, byddwn ni'n ymgynghori ag ysgolion ynghylch a ddylai'r achlysuron gael eu cynnal yn ddwyieithog. |

| **Cam 3 – Gwella'r cynnig**<br><br>Ar ôl rhestru camau gweithredu yn adran 2 a allai liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol – nodwch isod pa rai y byddwch chi'n eu cynnwys yn y cynnig polisi a phwy fydd yn gyfrifol amdanyn nhw.<br><br>Ystyriwch hefyd a yw'r cynnig yn angenrheidiol? A fyddai modd bodloni'r galw heb unrhyw ddatblygiadau newydd? A fyddai modd defnyddio darpariaeth arall sy'n bodoli eisoes? Ble dylai'r datblygiad fod? | | |
|---|---|---|
| **Beth rydych chi'n mynd i'w wneud?** | **Pryd ydych chi'n mynd i'w wneud?** | **Pwy sy'n gyfrifol?** |
| Ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid (fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori statudol). | Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 30 Medi 2024 ac yn dod i ben am 5pm ar 15 Tachwedd 2024. Bydd yr adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei goladu a'i grynhoi, a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor ym mis Rhagfyr 2024. | Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant |
| Disgyblion mewn ysgolion sydd â Dosbarthiadau Cynnal Dysgu | Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod llais plant a phobl ifainc yn ymwneud â'u cynnwys nhw'n gyfranogwyr gweithredol o'r broses datblygu, cyflawni, rheoli a gwella eu profiad addysgol a phrofiad fel disgyblion.<br><br>Mae gan blant a phobl ifainc hawl i fynegi eu barn ar bob mater sy'n cael effaith arnyn nhw ac i'w barn gael ei chlywed a'i hystyried yn unol â'u hoedran a'u haeddfedrwydd.  Felly, bydd | Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant |

| | | |
|---|---|---|
| | Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant y Cyngor yn sicrhau bod trefniadau addas yn cael eu gwneud i gynnwys disgyblion yn gyfranogwyr gweithredol trwy gydol y broses ymgynghori ac, os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnig, drwy gydol y broses weithredu hefyd. | |

**Cam 4 – Adolygu**

Yn rhan o'r Broses Asesu Effaith ar y Gymraeg, Cydraddoldeb a Dyletswydd Cymdeithasol-Economaidd, dylai'r holl gynigion sy'n dod o fewn y diffiniad o Benderfyniad Allweddol Sylweddol gael eu cyflwyno i Swyddogion y Panel Adolygu. Mae swyddogion o bob rhan o Wasanaethau'r Cyngor yn rhan o'r panel yma ac mae'n gweithredu fel ffrind beirniadol cyn i'ch adroddiad gael ei gwblhau a'i gyhoeddi ar gyfer cymeradwyaeth gan y Cabinet / Uwch Reolwyr y Cyngor.

Os yw'r cynnig yma'n cael ei ystyried yn Benderfyniad Allweddol Strategol, anfonwch eich asesiad effaith i gyfeiriad e-bost – BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk fel bod modd trefnu Panel Adolygu i drafod eich cynnig. Darllenwch ein dogfen ganllaw i gael rhagor o wybodaeth am beth yw Penderfyniad Allweddol Sylweddol.

Ar gyfer pob cynnig polisi, p'un a yw'n Benderfyniad Allweddol Sylweddol ai peidio, mae'n ofynnol i chi anfon yr asesiad hwn ymlaen i Wasanaethau Cymraeg yn y lle cyntaf i gael rhywfaint o arweiniad ac adborth cychwynnol.

Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon fel y gallwn ddangos sut rydyn ni wedi ystyried ac ymgorffori ystyriaethau cynaliadwy o ran y Gymraeg lle bynnag y bo modd. Gofalwch eich bod chi'n diweddaru'r adrannau perthnasol isod:

| **Sylwadau'r Uned Gwasanaethau Cymraeg** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw welliannau a wnaed yn dilyn adborth gan yr Uned Gwasanaethau Cymraeg** |
|---|---|---|
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **Sylwadau Swyddogion y Panel Adolygu** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw newidiadau a wnaed yn dilyn ystyriaethau gan Swyddogion y Panel Adolygu** |
| | | |
| **Sylwadau'r Adran Ymgynghori** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw welliannau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad** |
| | | |

| |
|---|
| **<u>Cam 5 – Monitro, Gwerthuso ac Adolygu</u>**<br><br>Sut byddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig, a gyda phwy? |
| Bydd swyddogion y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant yn monitro'r cynnig trwy gydol y cyfnod ymgynghori a gweithredu.<br><br>Bydd y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant yn cynnal adolygiad 'Gwersi a Ddysgwyd' ar ddiwedd y cam gweithredu a bydd hyn yn bwydo i mewn i brosiectau yn y dyfodol fel bod pob prosiect yn gwella ac yn elwa ar y gwersi a ddysgwyd (cadarnhaol a negyddol) yn ystod prosiectau blaenorol. |

| **Cam 6 – Crynodeb o'r Effeithiau gan y Cynnig**<br><br>Nodwch grynodeb o'r asesiad effaith. Dylai'r crynodeb hwn gael ei gynnwys yn adran Ystyriaethau Cymraeg yn rhan o dempled adroddiad Uwch Reolwyr y Cyngor / y Cabinet. Dylid cyhoeddi’r asesiad effaith ochr yn ochr â’r adroddiad. |
|---|
| I grynhoi, mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn nodi effeithiau cadarnhaol neu niwtral ar y Gymraeg yn unig.<br><br>• O ran y cynnig i wella'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu, fydd dim newid i ddosbarthiadau ADY cyfrwng Cymraeg. Ar hyn o bryd mae gan Rondda Cynon Taf 2 Ddosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg ar gyfer y Cyfnod Cynradd yn YGG Awel Taf. Mae yno le i 18 o ddisgyblion sy'n dangos anghenion sylweddol. Mae hefyd gan Rondda Cynon Taf Ddosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg ar gyfer Cyfnod Allweddol 3/4 yn Ysgol Garth Olwg. Mae yno le i 14 o ddisgyblion sy'n dangos anghenion sylweddol.<br><br>• Er y bydd y gwelliannau arfaethedig yn cael effaith niwtral ar gyfleoedd Cymraeg i'r cyhoedd yn gyffredinol, cydnabyddir y bydd yr holl staff wedi'u cyflogi ar gyfer y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu arfaethedig yn cael hyfforddiant i gyrraedd Lefel 1 o ran eu sgiliau Cymraeg. Bydd staff y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu hefyd yn cael eu hannog i wella eu sgiliau trwy ymgymryd â lefelau 2 a 3.<br><br>• Bydd pob ymgynghoriad statudol perthnasol a gofynnol sy'n gysylltiedig â'r cynnig yma'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.<br><br>• Mae’r cynigion hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion sy’n mynychu darpariaeth cyfrwng Saesneg oherwydd y cynnydd arfaethedig mewn lleoliadau Blynyddoedd Cynnar a lleoliadau ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Dysgu Cymhleth, Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol ac Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig. |

| **Cam 7 – Cymeradwyo** | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw'r Swyddog sy'n cwblhau'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg** | Lisa Carter | **Enw Cyfarwyddwr Gwasanaeth:** | Gaynor Davies |

<table>
<tr><td rowspan="1">Swydd</td><td>Cydlynydd Materion Cynhwysiant</td><td rowspan="3">Rydw i'n argymell bod y cynnig:<br>(Tynnwch sylw at y penderfyniad)</td><td>Yn cael ei roi ar waith heb unrhyw newidiadau</td></tr>
<tr><td colspan="2" rowspan="2"></td><td>Yn cael ei roi ar waith gan ystyried y camau lliniaru sydd wedi'u hamlinellu</td></tr>
<tr><td>Yn cael ei wrthod oherwydd effeithiau negyddol anghymesur ar y Gymraeg</td></tr>
<tr><td>Llofnod</td><td></td><td>Llofnod y Cyfarwyddwr Gwasanaeth</td><td></td></tr>
<tr><td>Dyddiad</td><td></td><td>Dyddiad</td><td></td></tr>
</table>

**ATODIAD 3**

**FFURFLEN ASESU EFFAITH AR GYDRADDOLDEB SY'N CYNNWYS DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL**

(Wedi'i diweddaru: Mawrth 2021)

Cyfeiriwch at y canllawiau Asesu Effaith ar Gydraddoldeb cyfredol wrth gwblhau'r ddogfen yma. Pe hoffech chi gael arweiniad pellach, ffoniwch y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant ar 01443 444529.

Rhaid cwblhau asesiad effaith ar gydraddoldeb ar ddechrau unrhyw gynnig i sicrhau bod tystiolaeth gadarn yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau. Bydd y ddogfen yma'n helpu'r Cyngor i wneud penderfyniadau gwybodus, effeithiol a theg wrth sicrhau cydymffurfiad ag ystod o ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys:

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol – Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Bydd y ddogfen yma hefyd yn cyfrannu at ein dyletswyddau i greu Cymru sy'n fwy cyfartal sy'n rhan annatod o:

- Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae canllawiau 'Dyletswyddau Mapio - Cymru sy'n fwy cyfartal' yn tynnu sylw at aliniad ein dyletswyddau mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth uchod.

**ADRAN 1 – MANYLION Y CYNNIG**

Swyddog Arweiniol: Lisa Carter

Cyfarwyddwr: Gaynor Davies

Gwasanaeth: Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant, Gwasanaeth

Mynediad a Chynhwysiant

Dyddiad: 04/09/2024

1.a) Beth ydych chi'n ei asesu o ran effaith?

| Strategaeth/Cynllun | Ail-fodelu/Cau Gwasanaeth | Polisi/Gweithdrefn | Arfer | Gwybodaeth/Datganiad Swydd |
|---|---|---|---|---|
| ☒ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

1.b) Beth yw enw'r cynnig?

**YMGYNGHORIAD AR Y CYNIGION I WELLA DARPARIAETH DOSBARTHIADAU CYNNAL DYSGU PRIF FFRWD – ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL YN RHONDDA CYNON TAF**

1.c) Nodwch drosolwg o'r cynnig gan ddarparu unrhyw ddolenni ategol i adroddiadau neu ddogfennau.

Yn dilyn cyflwyno Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (2018) a gweithredu'r Cod ADY statudol cysylltiedig (2021) ym mis Medi 2021, mae awdurdodau lleol (ALlau) yng Nghymru wrthi'n rhoi blwyddyn 4 Cynllun Gweithredu ADY cenedlaethol graddol ar waith i symud o'r hen drefn AAA i'r system ADY newydd. Nod trosfwaol y Cod ADY yw: *'Helpu i greu system gwbl gynhwysol lle caiff plant a phobl ifainc y cyfle i lwyddo a chael mynediad at addysg sy'n diwallu eu hanghenion ac yn eu galluogi i gymryd rhan mewn dysgu, mwynhau dysgu ac elwa ohono' (Cod ADY 2021, Adran 3:1).*

Mae’r fframwaith deddfwriaethol ADY newydd yn sicrhau y bydd gan bob plentyn a pherson ifanc hyd at 25 oed sydd ag ADY wedi'i nodi Gynllun Datblygu Unigol (CDU) statudol sy’n nodi’r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol y bydd yn ei derbyn er mwyn mynd i’r afael â’r ADY wedi'i nodi. Mae’r ddeddfwriaeth hefyd yn gosod dyletswydd statudol ar ALlau i barhau i adolygu pa mor ddigonol yw eu darpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY ac i fynd i’r afael ag unrhyw fylchau wedi'u nodi neu feysydd i’w gwella.

Mae gan Rondda Cynon Taf ystod ardderchog o ddarpariaethau Dosbarthiadau Cynnal Dysgu sy'n gysylltiedig ag ysgolion prif ffrwd, fodd bynnag, mae wedi dod yn fwyfwy amlwg bod yr ystod o ddarpariaethau Dosbarthiadau Cynnal Dysgu sydd ar gael ar hyn o bryd yn anghymesur â lefel yr angen mewn rhai meysydd. Gyda hyn mewn golwg, cafodd ymarfer dadansoddi data manwl ei gynnal er mwyn llywio'r cynigion.

Roedd y gwaith dadansoddi data yma'n cadarnhau bod:

- diffyg darpariaeth yn y cyfnod uwchradd;
- diffyg dosbarthiadau arbenigol ar draws cyfnodau allweddol mewn rhai ysgolion yn golygu bod rhai disgyblion yn wynebu cael eu trosglwyddo'n ddiangen;
- diffyg darpariaeth i ddiwallu anghenion disgyblion yn y blynyddoedd cynnar.

Yng ngoleuni'r canfyddiadau yma, bydd y cynigion ar gyfer newid yn ceisio cyflawni'r nodau canlynol:

- datblygu continwwm cadarn o ddarpariaeth sy'n mynd i'r afael ag amrywiaeth eang o anghenion disgyblion o bob grŵp blwyddyn;
- osgoi trosglwyddo disgyblion rhwng ysgolion yn ddiangen drwy sefydlu darpariaethau arbenigol ar draws cyfnodau allweddol mewn ysgolion unigol lle bo modd gwneud hynny;
- sefydlu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu mewn lleoliadau gwbl hygyrch sy'n cynnig amgylchedd dysgu sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif.

Y rhain yw'r cynigion:

- Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu (Ymyrraeth) y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol yn Ysgol Gynradd Cwmaman. Bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith o fis Medi 2025.

- Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu (Ymyrraeth) y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol yn Ysgol Gynradd Penyrenglyn. Bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith o fis Medi 2025.

- Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion ym Mlynyddoedd 7 i 11 ag Anghenion Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gyfun Aberpennar o fis Medi 2025.

- Symud Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 3 i 6 ag Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Gynradd Pen-y-waun i Ysgol Gynradd Hirwaun o fis Medi 2025.

- Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2 ag Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol / Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Gynradd Hirwaun i sefydlu darpariaeth pob oed yn y Cyfnod Cynradd o fis Medi 2025.

Bwriwch olwg ar yr adroddiad Cabinet a gafodd ei gyflwyno ar 19 Medi 2024

1.d) Amlinellwch ble mae deddfwriaeth neu sbardunau eraill fel cod ymarfer yn effeithio ar gyflawni'r cynnig yma.

Adran 315 o Ddeddf Addysg 1996
Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ALNET)

1.e) Nodwch ar bwy mae'r cynnig yma'n effeithio:

- Defnyddwyr Gwasanaeth ☒
- Gweithwyr ☒
- Y Gymuned Ehangach ☒

## ADRAN 2 – PRAWF SGRINIO – A OES ANGEN ASESIAD EFFAITH AR GYDRADDOLDEB LLAWN?

Caiff sgrinio ei defnyddio i benderfynu a yw'r fenter yn cael effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar grwpiau gwarchodedig. Lle mae effeithiau negyddol yn cael eu nodi ar gyfer grwpiau gwarchodedig rhaid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb llawn.

Rhowch gynifer o fanylion â phosibl ynglŷn â sut y bydd y cynnig yn effeithio ar y grwpiau canlynol. Efallai na fydd hyn yn negyddol o reidrwydd, ond gallai effeithio ar grŵp sydd â nodwedd unigol mewn ffordd benodol.

**Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011**

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn gorfodi'r Cyngor i roi "sylw dyledus" i'r angen i gael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon; hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau; a meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau. Rhowch ddull croestoriadol ar waith wrth gydnabod bod modd i unigolyn feddu ar fwy nag un nodwedd warchodedig.

| <u>**Nodweddion Gwarchodedig**</u> | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Rhowch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| **Oedran** *(Grwpiau oedran penodol h.y. pobl ifainc neu bobl hŷn)*<br><br>Dosbarth Derbyn – Bl.2 (Cyfnod Sylfaen gynt)<br>Bl. 3 – 6 (Cyfnod Allweddol 2 gynt)<br>Bl. 7 – 11 (Cyfnod Allweddol 3 a 4 gynt) | Cadarnhaol | • Lleoliadau priodol sy'n cyd-fynd â phrif anghenion disgyblion.<br>• Deilliannau addysgol gwell a chyswllt gwell gyda'r disgyblion er mwyn diwallu anghenion y disgyblion yn fwy effeithiol.<br>• Rhagor o gyfleoedd o ran cynnwys disgyblion yn y brif ffrwd mewn ysgolion cymuned lleol.<br>• Gwell continwwm o ddarpariaeth ddysgu sy'n gwella cyfleoedd bywyd i'r disgyblion sydd fwyaf agored i niwed.<br>• Bydd cynnig dosbarthiadau ychwanegol yn cynnig lleoedd ychwanegol mewn Dosbarthiadau Cynnal Dysgu ar draws pob ystod oedran, gan gynnwys yn y Blynyddoedd Cynnar. | Yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24, cafodd 611 o achosion eu trafod yn y Fforwm Blynyddoedd Cynnar. O'r rhain, roedd 163 yn achosion newydd a 348 ohonyn nhw'n achosion oedd wedi'u hail-atgyfeirio i'r Fforwm yn dilyn derbyn gwybodaeth wedi'i diweddaru. Yn dilyn y Panel Ymgynghorol, mae 53 o ddisgyblion bellach yn derbyn CDU wedi'i gynnal gan yr ALl. Mae 180 o ddisgyblion wedi cael cynnig cymorth gan y Garfan Bontio y flwyddyn academaidd yma, ac mae 90 o ddisgyblion eisoes yn derbyn cymorth ar gyfer eu cyfnod pontio ym mis Medi 2023.<br><br>Trwy ddadansoddi data, amcangyfrifir y bydd angen darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu gymhleth yn y Cyfnod Uwchradd ar 9 disgybl yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 2025/26 ond dim ond 5 lle sydd ar gael. Mae hyn yn golygu fyddai dim lle i 4 ohonyn nhw.<br><br>Ar hyn o bryd nid oes Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion Cyfnod Uwchradd ag Anawsterau Dysgu Cymhleth yng Nghwm Cynon, sy'n golygu bod angen cymorth ar ddisgyblion i gael mynediad i ddarpariaeth arbenigol yn Ysgolion Cyfun Tonyrefail, Glynrhedynog neu Dreorci. Bydd sefydlu'r ddarpariaeth arfaethedig yn sicrhau bod disgyblion Cwm Cynon yn gallu cael mynediad i ddarpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu prif ffrwd leol. |

| **<u>Nodweddion Gwarchodedig</u>** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Rhowch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| **Anabledd**<br>*(pobl sydd ag anableddau gweladwy ac anweladwy neu gyflyrau iechyd tymor hir)* | Cadarnhaol<br><br>+<br><br>Negyddol | Bydd yr adolygiad o ddarpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn caniatáu i'r ALl ddiwallu anghenion ei ddisgyblion ADY yn well. Bydd yr ysgolion prif ffrwd sy'n cynnal y Dosbarth Cynnal Dysgu yn cydymffurfio'n llawn â'r ddeddfwriaeth anabledd. Bydd y cynnydd mewn dosbarthiadau yn galluogi rhagor o ddisgyblion i gael mynediad at ddarpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu gwbl hygyrch tra'n lleihau trosglwyddo diangen.<br><br>Mae'n anochel y bydd symud y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn achosi rhywfaint o amharu ac ansicrwydd i rieni a disgyblion am gyfnod o amser, er bod profiad yn dangos bod modd lleihau hyn cymaint â phosib a dydy addysg y plant ddim yn dioddef. Bydd yr Adran Mynediad a Chynhwysiant yn rhoi cymorth i ddileu neu leihau unrhyw effaith negyddol bosibl. | Mae darparu Dosbarth Cynnal Dysgu newydd yn gwella'r cyfleoedd addysgol i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol a bydd yn darparu darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu ychwanegol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ailbennu Rhywedd** *(unrhyw un sydd â hunaniaeth rhywedd neu fynegiant rhywedd yn wahanol i'r rhywedd a neilltuwyd iddo adeg ei enedigaeth gan gynnwys hunaniaethau anneuaidd).* | Niwtral | Does dim disgwyl i'r cynnig yma gael effaith uniongyrchol ar nodweddion sy'n ymwneud ag Ailbennu Rhywedd. Bydd gweithrediad y cynnig yma'n cael ei fonitro'n rheolaidd. Pe bai effaith yn codi mewn perthynas ag Ailbennu Rhywedd, caiff yr asesiad effaith yma ei ddiweddaru i adlewyrchu hyn. | Does dim tystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |

| **<u>Nodweddion Gwarchodedig</u>** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Rhowch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| **Priodasau a Phartneriaethau Sifil** *(pobl sy'n briod neu mewn partneriaethau sifil)* | Niwtral | Does dim disgwyl i'r cynnig yma gael effaith uniongyrchol ar nodweddion sy'n ymwneud â Phriodas neu Bartneriaeth Sifil. Bydd gweithrediad y cynnig yma'n cael ei fonitro'n rheolaidd. Pe bai effaith yn codi yn ymwneud â Phriodas neu Bartneriaeth Sifil, caiff yr asesiad effaith yma'i ddiweddaru i adlewyrchu hyn. | Does dim tystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** *(Menywod sy'n feichiog / ar gyfnod mamolaeth)* | Niwtral | Does dim disgwyl i'r cynnig yma gael effaith uniongyrchol ar nodweddion sy'n ymwneud â Beichiogrwydd neu Famolaeth. Bydd gweithrediad y cynnig yma'n cael ei fonitro'n rheolaidd. Pe bai effaith yn codi yn ymwneud â Beichiogrwydd neu Famolaeth, bydd yr asesiad effaith yma'n cael ei ddiweddaru i adlewyrchu hyn. | Does dim tystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |
| **Hil** *(grwpiau ethnig neu o dras h.y. grwpiau'r lleiafrifoedd ethnig, Sipsiwn, Roma a Theithwyr)* | Niwtral | Does dim disgwyl i'r cynnig yma gael effaith uniongyrchol ar nodweddion sy'n ymwneud â Hil. Bydd gweithrediad y cynnig yma'n cael ei fonitro'n rheolaidd. | Does dim tystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Pe bai effaith yn codi yn ymwneud â Hil, bydd yr asesiad effaith yma'n cael ei ddiweddaru i adlewyrchu hyn. | |

| <u>**Nodweddion Gwarchodedig**</u> | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Rhowch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| **Crefydd neu Gred**<br>*(pobl sydd â gwahanol grefyddau a chredoau athronyddol gan gynnwys pobl heb unrhyw gredoau)* | Niwtral | Does dim disgwyl i’r cynnig yma gael effaith uniongyrchol ar nodweddion sy’n ymwneud â Chrefydd neu Gred. Bydd gweithrediad y cynnig yma'n cael ei fonitro'n rheolaidd. Pe bai effaith yn codi yn ymwneud â Chrefydd neu Gred, bydd yr asesiad effaith yma'n cael ei ddiweddaru i adlewyrchu hyn. | Does dim tystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |
| **Rhyw**<br>*(Menywod a dynion, merched a bechgyn)* | Niwtral | Does dim disgwyl i'r cynnig yma gael effaith uniongyrchol ar nodweddion sy'n ymwneud â Rhyw. Bydd gweithrediad y cynnig yma'n cael ei fonitro'n rheolaidd. Pe bai effaith yn codi yn ymwneud â Chrefydd neu Gred, bydd yr asesiad effaith yma'n cael ei ddiweddaru i adlewyrchu hyn. | Does dim tystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol**<br>*(deurywiol, hoyw, lesbiaidd, heterorywiol)* | Niwtral | Does dim disgwyl i’r cynnig yma gael effaith uniongyrchol ar nodweddion sy’n ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol. Bydd gweithrediad y cynnig yma'n cael ei fonitro'n rheolaidd. Pe | Does dim tystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | bai effaith yn codi yn ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol, bydd yr asesiad effaith yma'n cael ei ddiweddaru i adlewyrchu hyn. | |

**Oherwydd ymrwymiadau'r Cyngor i ddarparu cyfleoedd i'r grwpiau canlynol o bobl, hoffen ni i chi ystyried yr effaith arnyn nhw:**

| | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Rhowch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| **Cymuned y Lluoedd Arfog** *(unrhyw un sy'n gwasanaethu, wedi gwasanaethu, aelodau o'r teulu a'r rhai sydd mewn profedigaeth)* | Cadarnhaol | Bydd y cynnydd yn y ddarpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn rhoi mwy o gyfle i ddisgyblion ag ADY sylweddol gael mynediad i ddarpariaeth arbenigol ar draws pob grŵp oedran. | Bydd nifer uwch o leoedd mewn Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn arwain at y gallu i roi lleoliad i ragor o blant ag ADY sylweddol ar draws pob grŵp oedran. |
| **Cynhalwyr** *(Unrhyw un o unrhyw oedran sy'n darparu gofal di-dâl)* | Cadarnhaol | Mwy o botensial i fanteisio ar ddarpariaeth arbenigol briodol. | Bydd sefydlu rhagor o Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg yn arwain at y gallu i gefnogi rhagor o blant sydd ag ADY sylweddol. |

Os yw'r prawf sgrinio cychwynnol wedi nodi effeithiau negyddol yna **rhaid** cynnal asesiad effaith ar gydraddoldeb llawn (adran 4). Serch hynny, os ydych chi'n penderfynu ar ôl cynnal prawf sgrinio nad yw'n berthnasol i chi gynnal asesiad effaith ar gydraddoldeb llawn, nodwch esboniad digonol isod:

Doedd dim effeithiau negyddol yn dod i'r amlwg ar gyfer y grwpiau gwarchodedig. Bydd pob effaith ar grwpiau gwarchodedig naill ai'n niwtral neu'n gadarnhaol. Ydych chi'n fodlon bod gyda chi ddigon o dystiolaeth i gyfiawnhau'ch penderfyniad?

Ydw ☒ Nac ydw ☐

Enw: Lisa Carter

Swydd: Cydlynydd Materion Cynhwysiant

Dyddiad: 04/09/2024

Anfonwch gopi o'r ffurflen sgrinio gyflawn yma at y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant.

NODWCH – mae asesiad effaith ar wahân ar gyfer y Gymraeg. Rhaid ei gwblhau hefyd yn unol â'r cynigion. Dim ond os yw cynigion o natur strategol neu wrth adolygu penderfyniadau strategol blaenorol y mae'n rhaid cwblhau Adran 3 Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Mae diffiniad o 'natur strategol' ar gael ar dudalen 6 o Ganllawiau Paratoi ar gyfer Cychwyn y Ddyletswydd Gymdeithasol-economaidd Llywodraeth Cymru.

**ADRAN 3 – DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL (PENDERFYNIADAU STRATEGOL YN UNIG)**

Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn rhoi cyfle i ni wneud pethau'n wahanol a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb sydd wirioneddol wrth wraidd gwneud penderfyniadau allweddol. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu byw ar incwm isel o gymharu ag eraill yng Nghymru, heb fawr o gyfoeth cronedig, os o gwbl, gan arwain at ragor o amddifadedd materol. Yn y pen draw, mae hyn yn cyfyngu ar y gallu i unigolion gael gafael ar nwyddau a gwasanaethau sylfaenol.

Ystyriwch y grwpiau sy'n agored i niwed ychwanegol yma a'r effaith y mae modd i'ch cynnig ei chael arnyn nhw:

| | |
|---|---|
| • Rhieni sengl a theuluoedd sy'n agored i niwed<br>• Pensiynwyr<br>• Plant sy'n derbyn gofal<br>• Pobl ddigartref<br>• Myfyrwyr<br>• Cartrefi oedolion sengl | • Pobl sy'n byw mewn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru<br>• Pobl â sgiliau isel o ran llythrennedd a rhifedd<br>• Pobl sydd wedi ymwneud â'r system loches<br>• Pobl sy'n camddefnyddio sylweddau<br>• Pobl o bob oed sy'n gadael lleoliad gofal<br>• Pobl sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol |

| **Anfantais economaidd-gymdeithasol** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Rhowch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| **Incwm isel/Tlodi o ran Incwm**<br>*(does dim modd i'r unigolyn fforddio gwneud taliadau rheolaidd fel talu biliau, prynu bwyd a dillad, talu am gludiant ac ati.)* | Niwtral | Mae'r buddion sydd i'w cael o roi'r newid arfaethedig ar waith yn cynnwys:<br>• rhagor o ffocws ar wella darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu prif ffrwd, sy'n rhoi cyfleoedd bywyd gwell i'n disgyblion sydd fwyaf agored i niwed<br>• darparu continwwm priodol sy'n cyd-fynd â phrif anghenion y disgyblion<br>• deilliannau addysgol gwell a chyswllt gwell gyda'r disgyblion am ein bod ni'n diwallu anghenion y disgyblion yn effeithiol<br>• rhagor o gyfleoedd o ran cynnwys disgyblion yn y brif ffrwd mewn ysgol cymuned leol<br><br>Gallai anfantais gynnwys pellter teithio ychwanegol i rai disgyblion. Fodd bynnag, bydd trafnidiaeth yn cael ei darparu yn unol â Pholisi Teithio Disgyblion y Cyngor a bydd disgyblion yn cael eu lleoli yn y lleoliad arbenigol agosaf a mwyaf priodol. Os cânt eu lleoli mewn Dosbarth Cynnal Dysgu, mae'n bosibl y bydd angen i ddisgyblion deithio y tu allan i'r dalgylch, er y bydd yr Adran Mynediad a Chynhwysiant yn ceisio gosod disgyblion yn y Dosbarth | • Sefydlu darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu newydd ledled y Fwrdeistref Sirol yn flaenorol<br>• Cynnydd yng ngallu'r ALl i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol amrywiol<br>• Effaith gadarnhaol sefydlu'r Dosbarth Cynnal Dysgu ar yr ysgol a chymunedau ehangach. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Cynnal Dysgu priodol agosaf at eu cyfeiriad cartref. | |

| **Anfantais economaidd-gymdeithasol** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Rhowch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| **Cyfoeth Bach a / neu Dim Cynilion** *(digon o arian i gwrdd â chostau byw sylfaenol a thalu biliau ond heb unrhyw gynilion i ddelio ag unrhyw wariant annisgwyl a dim darpariaethau ar gyfer y dyfodol)* | Niwtral | Mae'r buddion sydd i'w cael o roi'r newid arfaethedig ar waith yn cynnwys:<br>• sicrhau bod Dosbarthiadau Cynnal Dysgu mewn safle addysg sy'n hygyrch ac sy'n briodol ar gyfer disgyblion sydd ag amrywiaeth eang o anghenion, gan gynnwys anghenion corfforol a meddygol<br>• gwella ystod ac ansawdd y cyfleusterau ac adnoddau dysgu sydd ar gael er budd y disgyblion i gyd<br>• bydd y ddarpariaeth newydd yn cael ei chynnal gan ysgolion sydd â'r gallu i ddatblygu dosbarth ychwanegol oherwydd bod ganddi leoedd dros ben a'i bod yn gallu darparu lleoedd i'r disgyblion ychwanegol a fydd yn cael eu lleoli yn yr ysgol.<br><br>Gallai anfantais gynnwys pellter teithio ychwanegol i rai disgyblion. Fodd bynnag, bydd trafnidiaeth yn cael ei darparu yn unol â Pholisi Teithio Disgyblion y Cyngor a bydd disgyblion yn cael eu lleoli yn y lleoliad arbenigol | • Sefydlu darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu newydd ledled y Fwrdeistref Sirol yn flaenorol<br>• Cynnydd yng ngallu'r ALl i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol amrywiol<br>• Effaith gadarnhaol sefydlu'r Dosbarth Cynnal Dysgu ar yr ysgol a chymunedau ehangach. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | agosaf a mwyaf priodol. Os cânt eu lleoli mewn Dosbarth Cynnal Dysgu, mae'n bosibl y bydd angen i ddisgyblion deithio y tu allan i'r dalgylch, er y bydd yr Adran Mynediad a Chynhwysiant yn ceisio gosod disgyblion yn y Dosbarth Cynnal Dysgu priodol agosaf at eu cyfeiriad cartref. | |

| **Anfantais economaidd-gymdeithasol** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Rhowch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| **Amddifadedd Materol**<br>*(methu â chael mynediad at wasanaethau na chynnyrch sylfaenol h.y. cynhyrchion ariannol fel yswiriant bywyd, atgyweirio / amnewid nwyddau trydanol sydd wedi torri, cadw'r cartref yn gynnes, hobïau ac ati.)* | Cadarnhaol | Mae'r buddion sydd i'w cael o roi'r newid arfaethedig ar waith yn cynnwys:<br>• rhagor o ffocws ar wella darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu prif ffrwd, sy'n rhoi cyfleoedd bywyd gwell i'n disgyblion sydd fwyaf agored i niwed<br>• darparu continwwm priodol sy'n cyd-fynd â phrif anghenion y disgyblion<br>• cydymffurfio ag un o'r egwyddorion sy'n sail i Ddeddf ALNET, sef y dylai pob disgybl allu manteisio ar addysg y brif ffrwd lle bo modd gwneud hynny<br>• deilliannau addysgol gwell a chyswllt gwell gyda'r disgyblion trwy ddiwallu anghenion y disgyblion yn effeithiol<br>• rhagor o gyfleoedd o ran cynnwys disgyblion yn y brif ffrwd mewn ysgol cymuned leol<br>• sicrhau bod Dosbarthiadau Cynnal Dysgu wedi'u lleoli mewn lleoliadau addysgol sy'n hygyrch ac yn briodol ar gyfer disgyblion | • Sefydlu darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu newydd ledled y Fwrdeistref Sirol yn flaenorol<br>• Cynnydd yng ngallu'r ALl i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol amrywiol<br>• Effaith gadarnhaol sefydlu'r Dosbarth Cynnal Dysgu ar yr ysgol a chymunedau ehangach. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | sydd ag amrywiaeth eang o anghenion, gan gynnwys anghenion corfforol a meddygol<br>• gwella ystod ac ansawdd y cyfleusterau ac adnoddau dysgu sydd ar gael er budd y disgyblion i gyd<br>• bydd y ddarpariaeth newydd yn cael ei chynnal gan ysgolion sydd â'r gallu i ddatblygu dosbarth ychwanegol oherwydd bod ganddi leoedd dros ben a'i bod yn gallu darparu lleoedd i'r disgyblion ychwanegol a fydd yn cael eu lleoli yn yr ysgol. | |

| **Anfantais economaidd-gymdeithasol** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Rhowch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| **Amddifadedd o ran Ardal**<br>*(Lle rydych chi'n byw (ardaloedd gwledig), lle rydych chi'n gweithio (mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus)* | Cadarnhaol | Bydd y Dosbarth Cynnal Dysgu yn cael ei gynnal mewn lleoliad hygyrch i ganiatáu i ddisgyblion ledled yr ALl fanteisio ar ddarpariaeth arbenigol. Bydd trafnidiaeth i'r ddarpariaeth yn cael ei darparu yn unol â pholisi Teithio gan Ddysgwyr Rhondda Cynon Taf felly fydd dim effaith andwyol o ran pellter ar unrhyw ddisgyblion. Bydd y cynnydd mewn Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn darparu cyfleoedd ychwanegol i ddisgyblion ag ADY sylweddol gael mynediad i'r ddarpariaeth leol.<br><br>Os cânt eu rhoi mewn Dosbarth Cynnal Dysgu, mae'n bosibl y bydd angen i ddisgyblion deithio y tu allan i'r dalgylch, er y bydd yr Adran Mynediad a Chynhwysiant yn ceisio rhoi disgyblion yn y Dosbarth Cynnal Dysgu priodol agosaf at eu cyfeiriad cartref. | • Sefydlu darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu newydd ledled y Fwrdeistref Sirol yn flaenorol<br>• Cynnydd yng ngallu'r ALl i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol amrywiol<br>• Effaith gadarnhaol sefydlu'r Dosbarth Cynnal Dysgu ar yr ysgol a chymunedau ehangach. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cefndir economaidd-gymdeithasol**<br>*(dosbarth cymdeithasol h.y. addysg, cyflogaeth ac incwm rhieni)* | Cadarnhaol | Mae gwella darpariaeth arbenigol ar gyfer disgyblion Rhondda Cynon Taf wrth galon y broses gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r cynnig.<br><br>Mae pob penderfyniad wedi cael ei wneud gan roi ystyriaeth lawn i anghenion y disgyblion a gyda'r bwriad o ddarparu darpariaeth arbenigol o safon uchel, sy'n gwbl hygyrch ac sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif ar gyfer disgyblion sydd angen darpariaeth arbenigol mewn Dosbarth Cynnal Dysgu o fewn lleoliad prif ffrwd hollgynhwysol. | • Sefydlu darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu newydd ledled y Fwrdeistref Sirol yn flaenorol<br>• Cynnydd yng ngallu'r ALl i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol amrywiol<br>• Effaith gadarnhaol sefydlu'r Dosbarth Cynnal Dysgu ar yr ysgol a chymunedau ehangach. |
| **Anfantais economaidd-gymdeithasol**<br>*(Yr effaith gronnus y bydd y cynnig yn ei chael ar bobl neu grwpiau oherwydd eu nodwedd(ion) gwarchodedig neu eu bregusrwydd, neu oherwydd eu bod nhw eisoes dan anfantais)* | Cadarnhaol | Bydd y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu newydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol a'u rhieni / gwarcheidwaid.<br><br>Mae'r newidiadau arfaethedig i'r ddarpariaeth bresennol a sefydlu'r darpariaethau Dosbarthiadau Cynnal Dysgu newydd yn rhoi cyfle i ddisgyblion ag anghenion dysgu sylweddol fynychu darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu mewn ysgolion prif ffrwd. | • Sefydlu darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu newydd ledled y Fwrdeistref Sirol yn flaenorol<br>• Cynnydd yng ngallu'r ALl i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol amrywiol<br>• Effaith gadarnhaol sefydlu'r Dosbarth Cynnal Dysgu ar yr ysgol a chymunedau ehangach. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Negyddol | Does dim effaith negyddol ar unrhyw unigolyn a allai fod dan anfantais ariannol neu faterol, gan y bydd y ddarpariaeth newydd yn rhoi cyfleoedd ychwanegol i blant fanteisio ar ddarpariaeth arbenigol Anawsterau Dysgu Cymhleth, Blynyddoedd Cynnar ac Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig.<br>I'r disgyblion hynny sy'n mynychu darpariaeth a fydd yn symud, bydd rhywfaint o aflonyddwch tymor byr a allai achosi lefel o bryder i rieni a disgyblion. Serch hynny, bydd y rhai sy'n cael eu heffeithio yn cael eu cefnogi gan y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant yn ystod y cyfnod pontio. Bydd y staff hynny sy'n gweithio mewn Dosbarth Cynnal Dysgu y cynigir eu hadleoli yn symud gyda'r disgyblion Dosbarth Cynnal Dysgu i sicrhau bod eu harbenigedd yn cael ei gynnal a bod gan y disgyblion ddilyniant o ran y staff sy'n eu cefnogi nhw. | |

**ADRAN 4 – ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB LLAWN**

Dylech chi ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod y cam sgrinio i'ch cynorthwyo i nodi effeithiau negyddol / andwyol posibl a nodi'n glir pa grwpiau sy'n cael eu heffeithio.

4.a) O ran unrhyw effaith anghymesur / negyddol / andwyol y byddai'n bosibl i'r cynnig ei chael ar grŵp gwarchodedig, nodwch y camau fydd yn cael eu cymryd i leihau'r effaith yna ar gyfer pob grŵp sydd wedi'i nodi. **Atodwch gynllun gweithredu ar wahân os yw'r effeithiau'n rhai sylweddol.**

Does dim unrhyw effeithiau negyddol sylweddol wedi'u nodi yn yr asesiad yma o'r effaith ar gydraddoldeb. Fodd bynnag, mae effaith negyddol bosibl wedi'i nodi mewn perthynas â'r tarfu tymor byr ar ddisgyblion sy'n mynychu'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu sy'n cael eu cynnig wrth gael eu symud. Er mwyn lliniaru'r effaith posibl yma, bydd y staff hynny sy'n gweithio mewn Dosbarth Cynnal Dysgu y cynigir eu hadleoli yn symud gyda'r disgyblion Dosbarth Cynnal Dysgu i sicrhau bod eu harbenigedd yn cael ei gynnal a bod gan y disgyblion ddilyniant o ran y staff sy'n eu cefnogi nhw.

4.b) Os yw ffyrdd o leihau'r effaith wedi cael eu nodi ond dydyn nhw ddim yn bosibl, esboniwch pam dydyn nhw ddim yn bosibl.

Mae'r effaith negyddol bosibl wedi'i lliniaru fel sydd wedi'i manylu uchod. Rhowch fanylion unrhyw ddata neu ymchwil sydd wedi arwain at eich rhesymeg, yn enwedig y ffynonellau wedi'u defnyddio i sefydlu demograffeg defnyddwyr gwasanaethau/aelodau o staff.

4.c) Rhowch fanylion am sut gwnaethoch chi ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau / aelodau o staff ar y cynigion a'r camau a gymerwyd i osgoi unrhyw effaith anghymesur ar grŵp gwarchodedig. Esboniwch sut rydych chi wedi defnyddio adborth i ddylanwadu ar eich penderfyniad.

Mae adroddiad Cabinet a dogfen ymgynghori fanwl sydd wedi'u hysgrifennu i gefnogi'r gwaith symud arfaethedig mewn perthynas â darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu. Mae'r ddau adroddiad yn nodi'n glir yr angen am ddarpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu ychwanegol a sail resymegol y cynnig. Bydd yr ymgynghoriad yn para tan 15 Tachwedd 2024 ac yn dilyn hynny bydd adroddiad ymgynghori yn cael ei rannu â'r Cabinet a'r holl randdeiliaid perthnasol.

4.d) Ydych chi'n fodlon bod y broses ymgysylltu yn cydymffurfio â gofynion y Dyletswyddau Cydraddoldeb ac Economaidd-gymdeithasol Statudol?

Ydw ☒ Nac ydw ☐

**ADRAN 5 – MONITRO AC ADOLYGU**

5a) Amlinellwch isod sut y bydd y cynnig yn cael ei fonitro unwaith y bydd yn cael ei weithredu:

Bydd Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant y Cyngor yn chwarae rhan lawn yn y broses o gefnogi'r pennaeth a'r corff llywodraethu i sefydlu darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu trwy ei brosesau rheoli llinell a sicrhau ansawdd sefydledig sy'n ymwneud â rheoli'r darpariaethau yma. Yn unol â gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg a Deddf Addysg 1996, bydd yr ALl yn parhau i adolygu ei ddarpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu er mwyn sicrhau ei bod yn diwallu anghenion disgyblion yn Rhondda Cynon Taf sydd ag ADY.

Mae croeso i bartïon sydd â diddordeb anfon eu sylwadau ysgrifenedig at:

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau

Cynhwysiant,

Cyngor Bwrdeistref Sirol

Rhondda Cynon Taf,

Canolfan Menter y Cymoedd

Aberpennar

CF45 4SN

neu e-bostio: CynaMyn@rctcbc.gov.uk

5b) Erbyn pryd bydd raid i chi adolygu gwerthusiad y cynnig?

Bydd adroddiadau'n cael eu cyflwyno i'r Cabinet yn rheolaidd wrth i'r cynnig fynd rhagddo.

5c) Pwy sy'n gyfrifol am fonitro ac adolygu'r cynnig?

Bydd swyddogion y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant yn monitro'r cynnig trwy gydol y cyfnod ymgynghori a gweithredu.

5d) Sut bydd y canlyniadau o'r broses fonitro'n cael eu defnyddio i ddatblygu cynigion yn y dyfodol?

Bydd y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant yn cynnal adolygiad 'Gwersi a Ddysgwyd' ar ddiwedd y cam gweithredu a bydd hyn yn bwydo i mewn i brosiectau yn y dyfodol fel bod pob prosiect yn gwella ac yn elwa ar y gwersi a ddysgwyd (cadarnhaol a negyddol) yn ystod prosiectau blaenorol.

**ADRAN 6 – ADOLYGU**

Yn rhan o'r broses Asesu Effaith rhaid cyflwyno pob cynnig sy'n dod o fewn y diffiniad o 'Benderfyniadau Allweddol' i'r Panel Adolygu. Mae swyddogion o bob rhan o Wasanaethau'r Cyngor yn rhan o'r panel yma ac mae'n gweithredu fel ffrind beirniadol cyn i'ch cynnig gael ei gwblhau a'i gyhoeddi ar gyfer cymeradwyaeth gan y Cabinet / Uwch Reolwyr y Cyngor.

Os yw'r cynnig yma'n cael ei ystyried yn Benderfyniad Allweddol anfonwch eich asesiad effaith at BusnesyCyngor@rhondda-cynon-taf.gov.uk fel bod modd trefnu Panel Adolygu i drafod eich cynnig. Mae dogfen ganllawiau Asesu Effaith ar Gydraddoldeb yn darparu rhagor o wybodaeth am beth yw Penderfyniad Allweddol.

Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses yma fel bod modd i chi ddangos sut rydych chi wedi ystyried cydraddoldeb a deilliannau economaidd-gymdeithasol. Sicrhewch eich bod chi'n diweddaru'r adrannau perthnasol isod:

| **Sylwadau Swyddogion y Panel Adolygu** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw newidiadau a wnaed yn dilyn ystyriaethau gan Swyddogion y Panel Adolygu** |
|---|---|---|
| | | - |
| **Sylwadau'r Adran Ymgynghori** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw welliannau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad** |
| | | |

## ADRAN 6 – CRYNODEB O'R EFFEITHIAU GAN Y CYNNIG

Nodwch grynodeb o'r asesiad effaith. Dylai'r crynodeb yma gael ei gynnwys yn adran cydraddoldeb ac effaith economaidd-gymdeithasol templed adroddiad y Cabinet. Dylid cyhoeddi’r asesiad effaith ochr yn ochr â’r adroddiad.

I grynhoi, mae'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi effeithiau cadarnhaol a niwtral, a does dim effeithiau negyddol ar y nodweddion gwarchodedig.

- Mae'r effaith ar oedran yn hynod gadarnhaol gan y byddan nhw'n cael y budd llawn o gael eu haddysgu mewn Dosbarth Cynnal Dysgu arbenigol wedi'i leoli mewn cyfleusterau gwych sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif. Darparu model cynhwysol o ddarpariaeth arbenigol fydd yn cael ei gynnal gan ysgol prif ffrwd a fydd â'r modd i ddiwallu eu hanghenion sydd wedi'u nodi yn y gymuned leol.
- Bydd yr adeiladau'n cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010 gan sicrhau na chaiff unrhyw ddisgybl, aelod o staff, rhiant/gwarcheidwad nac aelod o'r gymuned ehangach ei atal rhag manteisio'n llawn ar y cyfleusterau newydd.
- Mae disgwyl y bydd disgyblion ym mhob Dosbarth Cynnal Dysgu yn cael cyfleoedd cynhwysiant prif ffrwd. Mae'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn rhan annatod o ethos yr ysgolion a'r teuluoedd ac mae'r disgyblion yn cael eu trin yn gyfartal gyda chyfoedion prif ffrwd. Bydd symud y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu a sefydlu'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu arfaethedig yn sicrhau bod yr ALl yn darparu cyfleusterau dwyieithog addas i gefnogi plant ag ADY ym mhob grŵp academaidd.

RHONDDA CYNON TAF

**ADRAN 7 – AWDURDODI**

Swyddog Arweiniol:

Enw: Lisa Carter

Swydd: Cydlynydd Materion Cynhwysiant

Dyddiad: 04/09/2024

Rydw i'n argymell bod y cynnig:

- Yn cael ei roi ar waith heb unrhyw newidiadau ☒
- Yn cael ei roi ar waith gan ystyried y camau lliniaru sydd wedi'u hamlinellu ☐
- Yn cael ei wrthod oherwydd effeithiau negyddol anghymesur y bydd y cynnig yn eu cael ar grwpiau gwarchodedig neu oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol ☐

Cymeradwyaeth y Pennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr:

Enw: Gaynor Davies

Swydd: Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant

Dyddiad: 04/09/2024

**ATODIAD 4**

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Caiff yr Asesiad yma o'r Effaith ar y Gymuned ei lunio yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion – 2018 (011/2018). Mae i'w ddarllen ochr yn ochr â'r Ddogfen Ymgynghori, yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gan fod yr wybodaeth ym mhob dogfen yn gysylltiedig ac mae'r themâu ynddyn nhw'n drawsbynciol.

Mae Adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion – 2018 yn cyfeirio at newidiadau a reoleiddir i ysgol, sy'n cynnwys:

- Cyflwyno neu ddileu darpariaeth AAA/ADY neu unrhyw newid yn y math o ddarpariaeth o'r fath. Dyma le mae'r ddarpariaeth mewn ysgol prif ffrwd ond mae'r disgyblion sy'n cael eu derbyn yn ychwanegol at rif derbyn yr ysgol. Rhaid bod y ddarpariaeth wedi'i chydnabod gan yr awdurdod lleol fel un sydd ar gyfer disgyblion ag AAA/ADY;

Dyma'r cynigion:

- Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu (Ymyrraeth) y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol Ysgol Gynradd Cwmaman. Bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith o fis Medi 2025.
- Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu (Ymyrraeth) y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol Ysgol Gynradd Penyrenglyn. Bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith o fis Medi 2025.
- Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion ym Mlynyddoedd 7 i 11 ag Anghenion Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gyfun Aberpennar o fis Medi 2025.
- Symud Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 3 i 6 ag Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Gynradd Pen-y-waun i Ysgol Gynradd Hirwaun o fis Medi 2025.
- Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2 ag Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Gynradd Hirwaun i sefydlu darpariaeth pob oed yn y Cyfnod Cynradd o fis Medi 2025.

Bydd ymgynghoriad ar y cynigion yn cael ei gynnal rhwng 30 Medi ac 15 Tachwedd 2024. Mae Dogfen Ymgynghori fanwl wedi'i dosbarthu i'r holl randdeiliaid penodedig, ac mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn atodiad i'r brif ddogfen yma. Bydd copïau'n cael eu hanfon i Lywodraeth Cymru, er mwyn cydymffurfio â chanllawiau'r ymgynghoriad a'r cyhoeddiad.

RHONDDA CYNON TAF

**Cynnig:**

1. **Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu (Ymyrraeth) y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol Ysgol Gynradd Cwmaman. Bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith o fis Medi 2025.**

   Mae Rhondda Cynon Taf yn cynnig gwella darpariaeth Ymyrraeth y Blynyddoedd Cynnar yn y Fwrdeistref Sirol drwy sefydlu Dosbarth Cynnal Dysgu ychwanegol i gefnogi disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol. Bydd y dosbarth yn rhoi cymorth i 8 disgybl o dan oedran ysgol statudol.

2. **Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu (Ymyrraeth) y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol Ysgol Gynradd Penyrenglyn. Bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith o fis Medi 2025.**

   Mae Rhondda Cynon Taf yn cynnig gwella darpariaeth Ymyrraeth y Blynyddoedd Cynnar yn y Fwrdeistref Sirol drwy sefydlu Dosbarth Cynnal Dysgu ychwanegol i gefnogi disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol. Bydd y dosbarth yn rhoi cymorth i 8 disgybl o dan oedran ysgol statudol.

3. **Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion ym Mlynyddoedd 7 i 11 ag Anghenion Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gyfun Aberpennar o fis Medi 2025.**

   Er mwyn mynd i'r afael â'r materion presennol o ran capasiti, cynigir bod Rhondda Cynon Taf yn agor Dosbarth Cynnal Dysgu ychwanegol i ddisgyblion ym Mlynyddoedd 7-11 ag Anawsterau Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gyfun Aberpennar. Mae hyn er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn bodloni'r galw am ddarpariaeth Anawsterau Dysgu Cymhleth arbenigol yn ei gyfnod uwchradd. Bydd y dosbarth yn cefnogi 14 o ddisgyblion Bl. 7-11.

4. **Symud Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 3 i 6 ag Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Gynradd Pen-y-waun i Ysgol Gynradd Hirwaun o fis Medi 2025.**

RHONDDA CYNON TAF

Mae Rhondda Cynon Taf yn cynnig symud ei ddosbarth Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig o Ben-y-waun i Hirwaun. Bydd hyn yn osgoi trosglwyddo disgyblion sydd ag Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn ddiangen, yn sicrhau dilyniant yn eu lleoliadau addysgol ac yn sicrhau bod nifer uwch o Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu arbenigol yn rhoi tegwch i ddisgyblion mewn Dosbarthiadau Cynnal Dysgu fel eu bod nhw'n aros mewn un lleoliad nes iddyn nhw gael eu symud i addysg uwchradd yn unol â'u cyfoedion yn y brif ffrwd. Bydd y ddarpariaeth yn parhau i dderbyn 10 disgybl Bl. 3-6.

5. **Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2 ag Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Gynradd Hirwaun er mwyn sefydlu darpariaeth pob oed yn y Cyfnod Cynradd o fis Medi 2025.**

   Bydd y cynnig i sefydlu darpariaeth Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2 yn Hirwaun yn gwella'r ddarpariaeth Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn y Fwrdeistref Sirol drwy sefydlu Dosbarth Cynnal Dysgu ychwanegol i gwrdd â'r galw am ddarpariaeth Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig arbenigol. Gan gysylltu â chynnig 4 uchod mewn perthynas â'r cynnig i symud dosbarth, bydd y ddarpariaeth newydd arfaethedig yma'n cynyddu capasiti a hefyd yn lleihau'r broses bontio. Bydd lle i 8 disgybl o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2 yn y ddarpariaeth.

Cytunir ar bob lleoliad yn y Dosbarth Cynnal Dysgu ym mhaneli ADY y Gwasanaethau Cynhwysiant a Mynediad.

**Effaith ar y Gymuned**

Mae'r rhesymau dros ystyried y cynigion yma wedi'u hamlinellu'n llawn yn y ddogfen ymgynghori fydd yn cael ei dosbarthu'n eang; mae'r ddogfen yma'n amlinellu'r cefndir i'r cynigion yn glir a pham mae hi wedi bod yn angenrheidiol i'w cyflwyno ar yr adeg yma.

Mae creu'r darpariaethau newydd yn cael ei ystyried yn gam cadarnhaol. Fydd y cynigion yma ddim yn cael unrhyw effaith sylweddol ar y cymunedau lleol gan y bydd mwy o ddisgyblion lleol yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth arbenigol sy'n agosach i'w cartrefi nhw. Bydd y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn gwneud defnydd effeithiol o unrhyw leoedd dros ben yn yr ysgol, ac yn creu adnodd a fydd o fudd i ddisgyblion sy'n agored i niwed, yn ogystal â'u rhieni/gwarcheidwaid. Bydd y gwaith arfaethedig o sefydlu'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn gwella gallu cyffredinol yr ysgolion i ddiwallu amrywiaeth o anghenion, a hynny gan y bydd rhagor o arbenigedd ym maes Anghenion Dysgu Ychwanegol o fewn yr ysgol.

**Effaith ar Iechyd a Lles**

Rhagwelir y bydd y cynigion yn cael effaith gadarnhaol iawn ar iechyd a lles y disgyblion dan sylw. Bydd symud dosbarthiadau yn galluogi disgyblion i gael mynediad i adeiladau sydd wedi elwa o'r rhaglen foderneiddio a bydd sefydlu darpariaeth Blynyddoedd Cynnar, Anawsterau Dysgu Cymhleth ac Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig ychwanegol yn bodloni'r galw cynyddol am ddarpariaeth arbenigol yn y meysydd angen penodol yma yn Rhondda Cynon Taf.

**'Tu Allan i Oriau Ysgol' – Defnydd Presennol**

Bydd unrhyw wasanaethau sy'n cael eu darparu gan ysgolion i rieni, disgyblion a'r gymuned ar hyn o bryd yn aros yr un fath, er enghraifft clybiau brecwast a chlybiau ar ôl ysgol.

**Goblygiadau o ran Trafnidiaeth a Theithio**

Byddai trafnidiaeth yn cael ei darparu yn unol â Pholisi Teithio gan Ddisgyblion y Cyngor. Os caiff disgyblion eu derbyn i Ddosbarth Cynnal Dysgu, mae'n bosibl y bydd angen iddyn nhw deithio allan i'r dalgylch.